

# Safonau ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru



## Rhagair

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn bodoli i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn drwy gynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd, pennu safonau ar gyfer addysg ac ymarfer a rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol. Ein nod yw ennyn hyder ein rhanddeiliaid drwy sicrhau bod nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr yn addas i ymarfer a thrwy ddelio'n gyflym ac yn deg â'r rhai nad ydynt yn addas i ymarfer.

Mae safonau ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru yn diweddar ac yn disodli Standards of proficiency for pre-registration midwifery education (2004). Mae Cyfarwyddbau Ewropeaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi'u hymgorffori yn yr argraffiad hwn, ynghyd â Safonau a chanllawiau'r NMC a ddosbarthwyd yn ddiweddar sy'n ymwneud â chanlyniad dau ymgynghoriad a gynhaliwyd gan yr NMC, sef: Addasrwydd i ymarfer ar adeg cofrestru ac Addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru. Mae'r Clystyrau Sgiliau Hanfodol ar gyfer addysg bydwreigiaeth hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r teitl yn adlewyrchu cwmpas y safonau a'r canllawiau ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru.

**Mae cyfeiriadau at y Cod wedi'u diweddarau i Y Cod (NMC, 2015)**

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.....	4
Bydwreigiaeth – yr egwyddorion arweiniol .....	4
Safonau ar gyfer y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg.....	8
Safon 1 – Penodi'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg .....	8
Safon 2 – Datblygu, cyflwyno a rheoli rhaglenni addysg bydwreigiaeth.....	9
Safon 3 – Llofnodi'r datganiad ategol o iechyd da a chymeriad da.....	10
Safonau ar gyfer ymuno â rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru a chyfranogi'n barhaus ynddynt .....	11
Safon 4 – Gofynion cyffredinol sy'n ymwneud â dethol ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni cymeradwy a chyfranogi'n barhaus ynddynt, ac ymuno â'r gofrestr.....	11
Safon 5 – Ymyriadau â rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru .....	15
Safon 6 – Ymuno â rhaglenni â statws uwch .....	15
Safon 7 – Trosglwyddo rhwng sefydliadau addysgol cymeradwy .....	16
Safon 8 - Gadael ac ailymuno â rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru.....	16
Safonau ar gyfer strwythur a natur rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru .....	17
Safon 9 – Safon academiaidd y rhaglen .....	17
Safon 10 – Hyd y rhaglen.....	17
Safon 11 – Cymorth i fyfyrwyr .....	18
Safon 12 – Cydbwysedd rhwng ymarfer clinigol a theori .....	19
Safon 13 – Cwmpas profiad o ymarfer.....	19
Safon 14 – Statws ychwanegol yn ystod lleoliadau clinigol .....	20
Safon 15 – Strategaeth asesu .....	20
Safon 16 – Cofnod parhaus o gyflawniad .....	22
Cyrraedd safonau'r NMC .....	23
Safon 17 – Cymwyseddu sydd eu hangen i gyrraedd safonau'r NMC .....	23
Y Clystyrau Sgiliau Hanfodol .....	37
Atodiad	
Cyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (2005) ar gydnabod cymwysterau proffesiynol .....	75

# Cyflwyniad

## Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001<sup>1</sup> (y Gorchymyn) mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sefydlu a chynnal cofrestr o nyrsys a bydwreigedd cymwys [Erthygl 5(1)]. Mae'n ofynnol iddo bennu'r safonau sydd eu hangen er mwyn ymuno â gwahanol rannau o'r gofrestr [Erthygl 5(2)(a)], gan gynnwys y safonau addysg a hyfforddiant sydd eu hangen i gymhwyso fel bydwraig [Erthygl 15(1)].

Mae'r llyfr hwn yn nodi'r safonau addysg a hyfforddiant sydd eu hangen ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru. Mae eu statws yn orfodol ac mae eu hawdurdod yn deillio o ddeddfwriaeth, yn yr achos hwn, y Gorchymyn a Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru) 2004<sup>2</sup> (y Rheolau Cofrestru).

Mae'r safonau yn y llyfr hwn naill ai wedi bod yn destun ymgynghoriad, yn unol ag Erthygl 3(14) o'r Gorchymyn, neu maent wedi'u trosglwyddo o reolau, safonau a chanllawiau blaenorol.

## Bydwreigiaeth – yr egwyddorion arweiniol

Mae'r safonau ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru wedi'u llywio gan y diffiniad rhyngwladol o fydwraig a gofynion Erthygl 40 o Gyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol 2005/36/EC yr Undeb Ewropeaidd.

### Y diffiniad rhyngwladol o fydwraig

Y diffiniad o fydwraig fel y'i mabwysiadwyd gan Gydffederasiwn Rhyngwladol y Bydwreigedd (ICM), Ffederasiwn Rhyngwladol Gynaecoleg ac Obstetreg (FIGO) a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO):

Mae bydwraig yn berson sydd, ar ôl cael ei derbyn yn rheolaidd i raglen addysg bydwreigiaeth, a gydnabyddir yn briodol yn y wlad lle mae wedi'i lleoli, wedi cwblhau'r cwrs rhagnodedig o astudiaethau ym maes bydwreigiaeth yn llwyddiannus ac wedi ennill y cymwysterau gofynnol er mwyn cael ei chofrestru a/neu ei thrwyddedu'n gyfreithiol i ymarfer bydwreigiaeth.

Cydnabyddir y fydwraig fel gweithiwr proffesiynol cyfrifol ac atebol sy'n gweithio mewn partneriaeth â merched er mwyn rhoi'r cymorth, y gofal a'r cyngor angenrheidiol yn ystod beichiogrwydd, y cyfnod esgor a'r cyfnod ôl-enedigol, a chymryd cyfrifoldeb fel y fydwraig am enedigaethau a gofalu am blant newydd-anedig a babanod. Mae'r gofal hwn yn cynnwys mesurau ataliol, hyrwyddo rhoi genedigaeth yn naturiol, canfod cymhlethdodau yn y fam a'r plentyn, cael gafael ar ofal meddygol a chymorth priodol arall a chyflawni mesurau brys.

<sup>1</sup> Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (OS 2002/253) fel y'i diwygiwyd gan ([www.opsi.gov.uk/si/si2007/20073101](http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/20073101)) Rheoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) 2007 (OS 2007/3101), a ([www.opsi.gov.uk/si/si2008/pdf/uksi\\_20081485\\_en.pdf](http://www.opsi.gov.uk/si/si2008/pdf/uksi_20081485_en.pdf)) Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008 (OS 2008/1485), Y Llyfrfa, Norwich, ([www.hmsa.gov.uk](http://www.hmsa.gov.uk))

<sup>2</sup> Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru) 2004 (OS 2004/1767) fel y'u diwygiwyd gan Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ([www.opsi.gov.uk/si/si2005/uksi\\_20053354\\_en.pdf](http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/uksi_20053354_en.pdf)) (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru) (Diwygio) 2005 (OS 2005/3354) a Rheoliadau ([www.opsi.gov.uk/si/si2007/20073101.htm](http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/20073101.htm)) Cymwysterau Ewropeaidd (Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) 2007 (OS 2007/3101), Y Llyfrfa, Norwich, ([www.hmsa.gov.uk](http://www.hmsa.gov.uk))

Mae'r fydwraig yn cyflawni tasg bwysig ym maes cwnsela ac addysg iechyd, nid yn unig ar gyfer y ferch, ond hefyd o fewn y teulu a'r gymuned. Dylai'r gwaith hwn gynnwys addysg gynenedigol a pharatoi ar gyfer bod yn rhiant a gall ymestyn i gynnwys iechyd merched, iechyd rhywiol ac atgenhedlol a gofal plant.

Gall bydwraig ymarfer mewn unrhyw leoliad gan gynnwys y cartref, y gymuned, ysbytai, clinigau neu unedau iechyd.

(Mabwysiadwyd yng nghyfarfod Cyngor Cydffederasiwn y Bydwraedd yn Brisbane, Awstralia, ar 19 Gorffennaf, 2005)

### **Ymarfer diogel ac effeithiol**

Mae'n rhaid cynllunio rhaglenni addysg er mwyn paratoi myfyrwyr i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel y gallant fod yn gwbl gyfrifol ac atebol am eu ymarfer fel bydwragedd ar ôl iddynt gael eu cofrestru.

Mae'r egwyddorion arweiniol canlynol yn ymwneud â chymhwysedd proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer, a hyrwyddo a hwyluso proses ffisiolegol naturiol geni plant. Mae hyn yn cynnwys cymhwysedd o ran nodi unrhyw gymhlethdodau a all godi, cael gafael ar gymorth priodol a rhoi mesurau brys cywir ar waith.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos cymhwysedd yn y meysydd canlynol:

- bod ganddynt wybodaeth gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â hwyluso ffisioleg geni plant a'r baban newydd-anedig, a'u bod yn gymwys wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ymarferol
- bod ganddynt wybodaeth am ffactorau seicolegol, cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol a all ddylanwadu'n gadarnhaol neu'n andwyol ar ffisioleg naturiol a'u bod yn gymwys wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ymarferol
- eu bod yn meddu ar sgiliau rhyngpersonol priodol (fel y'u nodir yn y Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu) i gefnogi merched a'u teuluoedd
- eu bod yn meddu ar sgiliau o ran rheoli argyfyngau obstetrig a newyddenedigol, wedi'u hategu gan wybodaeth briodol
- eu bod yn ymarferwyr annibynnol ac yn ofalwyr arweiniol i ferched sy'n rhoi genedigaeth yn naturiol ac yn gallu cefnogi merched drwy eu beichiogrwydd, y cyfnod esgor, yr enedigaeth a'r cyfnod ôl-enedigol, ym mhob lleoliad gan gynnwys unedau a arweinir gan fydwragedd, canolfannau geni a'r cartref
- eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau hanfodol bwysig er mwyn hwyluso'r broses o atgyfeirio'r ferch neu'r baban yn briodol at weithwyr iechyd proffesiynol neu asiantaethau eraill pan gydnabyddir bod prosesau naturiol yn cael eu handwyo a'u peryglu.

Noder: ystyr geni plant yn y cyd-destun hwn yw'r cyfnodau cynenedigol, rhyngenedigol ac ôl-enedigol.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddeall ac ymarfer yn gymwys:

### **Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ferched**

Mae'n rhaid i ymarfer bydwreigiaeth ganolbwyntio ar ferched ac ymateb i anghenion merched a'u teuluoedd mewn amrywiaeth o leoliadau gofal. Adlewyrchir hyn yng ngallu'r fydwraig i asesu anghenion merched a phennu a darparu rhaglenni gofal a chymorth ar gyfer merched yn ystod y cyfnod cyn beichiogi, y cyfnod cynenedigol, y cyfnod 'intrapartum' a'r cyfnod ôl-enedigol.

Bydd y broses addysg yn paratoui'r fyfyrwraig i ddarparu gofal bydwreigiaeth. Bydd hefyd yn ei pharatoi i dderbyn cyfrifoldeb am reoli gofal i ferched yn effeithiol ac yn effeithlon drwy reoli a blaenoriaethau gofynion croes. Bydd y fyfyrwraig yn datblygu'r gallu i gydweithio o fewn y tîm gofal amlddisgyblaeth, tra'n dangos cymhwysedd cyffredinol wrth gyflawni rôl y fydwraig.

Mae'n rhaid canolbwyntio ar ddarparu gofal cyfannol i ferched a'u teuluoedd, sy'n parchu eu hanghenion, eu cyd-destunau, eu diwylliannau a'u dewisiadau unigol. Mae egwyddorion tegwch yn werthoedd sylfaenol, y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt ym mhob rhaglen baratoi.

### **Rhwymedigaethau moesegol a chyfreithiol**

*Y Cod: Mae Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd<sup>3</sup>* (NMC, 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i bob bydwraig ymddwyn ac ymarfer o fewn fframwaith moesegol sy'n seiliedig ar barch at les merched a'u teuluoedd. Er y gall amrywiol fodolau moesegol sydd â gogwydd at reolau ac sy'n seiliedig ar egwyddorion helpu i lywio penderfyniadau moesegol, mae llawer o ddilemâu moesegol yn gymhleth. Efallai na fydd yn hawdd eu datrys gan ddefnyddio un ymagwedd foesegol. Mae'n rhaid i fydwragedd gydnabod eu rhwymedigaethau moesegol a bod angen iddynt dderbyn cyfrifoldeb personol am eu dewisiadau moesegol eu hunain mewn sefyllfaoedd penodol yn seiliedig ar eu barn broffesiynol eu hunain. Wrth wneud dewisiadau o'r fath, mae'n rhaid i fydwragedd fod yn ymwybodol o ofynion cyfreithiol yn ogystal â rhai proffesiynol a chydymffurfio â hwy.

### **Parch at unigolion a chymunedau**

Mae'n rhaid i fydwragedd bob amser ddangos parch at bobl a chymunedau ac ni ddylent wahaniaethu mewn unrhyw ffordd yn erbyn y rhai yn eu gofal. Ni ddylai unrhyw fydwraig gefnogi unrhyw unigolyn neu grŵp sy'n gwrthwynebu neu'n bygwth hawliau dynol, diogelwch neu urddas unigolion neu gymunedau, p'un a yw'r fath unigolion neu grwpiau yn cael gofal bydwreigiaeth ai peidio.

<sup>3</sup> *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd (NMC, 2015)*, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))



## **Ansawdd a rhagoriaeth**

Nid yw'r safonau sy'n seiliedig ar ymarfer y mae'n ofynnol i fydwagedd eu cyrraedd yn ddyheadau proffesiynol ar wahân ac ynysig. Mae cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â'r nodau ehangach o sicrhau effeithiolrwydd clinigol o fewn timau ac asiantaethau gofal iechyd, gyda'r nod, yn y pen draw, o ddarparu gofal bydwreigiaeth o ansawdd uchel i ferched a'u teuluoedd. Mae sicrhau ansawdd gofal bydwreigiaeth yn un o sylfeini llywodraethu clinigol. Mae'n hanfodol bod y safonau bydwreigiaeth a nodir yn y llyfr hwn yn galluogi'r fyfyrwraig i hyrwyddo a hwyluso proses ffisiolegol geni plant, nodi cymhlethdodau a all godi mewn merched a'u babanod, cyfathrebu ac atgyfeirio mewn modd amserol at gydweithwyr priodol ac oddi wrthynt, a rhoi mesurau brys ar waith a throsglwyddo gofal.

## **Natur a chyd-destun newidiol ymarfer bydwreigiaeth**

Wrth i natur a chyd-destun ymarfer bydwreigiaeth newid, mae'n hanfodol bod pob bydwraig yn cael ei pharatoi ar gyfer diweddar a gwella ei gwybodaeth a'i sgiliau, mewn ymateb i anghenion newidiol merched a'u teuluoedd, a'i bod yn deall yr angen i wneud hynny. Mae'n rhaid i fydwagedd, sy'n gweithio o fewn cyfyngiadau eu cymhwysedd eu hunain, allu addasu i newid, ond mae'n rhaid iddynt hefyd allu nodi'r angen i newid a chychwyn y broses newid. Mae angen i fydwagedd addasu i newidiadau o ran technoleg a systemau newydd o ddarparu gofal wrth iddynt gael eu cyflwyno.

## **Dysgu gydol oes**

Mae'n rhaid paratoi bydwagedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol parhaus drwy gydol eu gyrfa, gan gynnwys dysgu a datblygu gwybodaeth newydd a sgiliau, a sicrhau eu bod yn deall yr angen amdano. Mae'n rhaid i raglenni sicrhau bod gan y fydwraig y sgiliau cyfathrebu ar gyfer darparu gofal effeithiol mewn amgylchedd amlddiwylliannol. Mae'n rhaid paratoi bydwagedd i weithio mewn partneriaeth ag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd, gan weithio ar draws ffiniau proffesiynol er budd merched a'u teuluoedd. Dylent allu hyrwyddo egwyddorion proffesiwn hunanreoleiddiol a goruchwyliaeth statudol yn unol â rheolau a safonau Bydwagedd yr NMC<sup>4</sup> a'r *Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwagedd* (NMC, 2015).<sup>5</sup>

## **Ymarfer a dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

O fewn yr amgylchedd gofal iechyd cymhleth sy'n newid yn gyflym, mae'n hanfodol bod y dystiolaeth orau sydd ar gael yn llywio ymarfer bydwreigiaeth. Sicrheir hyn drwy chwilio'r sail dystiolaeth; dadansoddi, beirniadu a defnyddio tystiolaeth yn ymarferol; lledaenu canfyddiadau gwaith ymchwil; ac addasu a newid ymarfer lle y bo'n briodol. Mae'n rhaid adlewyrchu hyn mewn rhaglenni addysg.

<sup>4</sup> Rheolau a safonau bydwagedd (2012). Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

<sup>5</sup> *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwagedd* (10 & 2015). Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

## **Safonau ar gyfer y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg**

Mae'r adran hon yn nodi safonau a chanllawiau sy'n ymwneud â'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg. Mae'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn ofyniad ar gyfer cymeradwyo rhaglenni addysg bydwreigiaeth sy'n arwain at wneud cais i ran y bydwagedd o'r gofrestr neu gymhwyster bydwreigiaeth cofnodadwy. Mae'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn rhan hanfodol o'r broses sicrhau ansawdd ac mae'n rhaid iddi ddangos i'r NMC fod y safonau sy'n arwain at gofrestru neu gofnodi unigolion ar ran y bydwagedd o'r gofrestr yn cael eu cynnal.

### **Safon 1 – Penodi'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg**

Mae'r NMC yn gofyn bod sefydliad addysgol cymeradwy yn gwneud y canlynol:

- penodi bydwraig arweiniol ar gyfer addysg sy'n fydwraig sy'n ymarfer ac sydd â chymhwyster addysgu bydwreigiaeth a gofnodwyd ar gofrestr yr NMC
- cadarnhau bod bydwraig arweiniol ar gyfer addysg wedi'i phenodi gyda'r NMC
- defnyddio'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg ar gyfer gwaith cydgysylltu strategol ag asiantaethau allanol megis prynwyr darpariaeth addysg ar gyfer pob mater sy'n effeithio ar addysg bydwreigiaeth.

### **Canllawiau**

Mae'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn fydwraig sy'n ymarfer ac, felly, mae'n rhaid iddi roi gwybod am ei bwriad i ymarfer bob blwyddyn. Mae'n rhaid iddi hefyd fodloni gofynion yr NMC o ran diweddarau a datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn aros ar y gofrestr fel bydwraig. Mae'r ffaith bod ganddi gymhwyster addysgu a gofnodwyd ar gofrestr yr NMC yn dangos bod y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg wedi cyrraedd safonau'r NMC ar gyfer addysgu.

Dylai'r sefydliad addysgol cymeradwy hysbysu'r NMC fod y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg wedi'i phenodi gan ddefnyddio'r ffurflen briodol (sydd ar gael ar wefan yr NMC yn [www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)), fel y gallwn gysylltu â hi pan fydd angen.

Mae enghreifftiau o asiantaethau allanol y gall fod angen i'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg gyfathrebu â hwy yn cynnwys yr NMC a'i grwpiau cyfeirio strategol, awdurdodau goruchwyllo lleol, comisiynwyr a phrynwyr addysg, unedau mamolaeth, Adrannau Iechyd, sefydliadau addysg uwch eraill, sefydliadau proffesiynol a chyflogwyr yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

Dylid helpu'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg i fynd i gyfarfodydd grŵp cyfeirio strategol bydwagedd arweiniol ar gyfer addysg yr NMC sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Gan gydweithio ag asiantaethau allanol, bydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn sicrhau bod hyfforddiant yn bodloni gofynion rhaglenni addysg bydwreigiaeth nawr ac yn y dyfodol, yn unol â gofynion yr NMC ar gyfer paratoi bydwagedd sy'n addas i ymarfer.



## **Safon 2 – Datblygu, cyflwyno a rheoli rhaglenni addysg bydwreigiaeth**

Bydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn arwain y gwaith o ddatblygu, cyflwyno a rheoli'r rhaglenni addysg bydwreigiaeth a ddarperir gan y sefydliad addysgol cymeradwy, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a bennwyd gan yr NMC.

Bydd y sefydliad addysgol cymeradwy yn gwneud y canlynol:

- ymgynghori â'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg ynghylch pob mater sy'n effeithio ar addysg bydwreigiaeth

Bydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn gwneud y canlynol:

- cyfrannu ar y systemau mewnol sy'n llywio'r gwaith o sicrhau ansawdd rhaglenni addysg bydwreigiaeth
- cydweithredu â gwasanaethau mamolaeth, defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau defnyddwyr ym mhob mater sy'n effeithio ar addysg bydwreigiaeth
- rhoi mewnbwn proffesiynol ar lefelau strategol a gweithredol o fewn y sefydliad addysgol cymeradwy er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion yr NMC o ran rhoi sylw dyledus
- gweithio ar lefel strategol gyda phenaethiaid bydwreigiaeth, swyddogion bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwyllo lleol, goruchwylwyr bydwreigedd a phrynwyr darpariaeth addysg ym mhob mater sy'n effeithio ar addysg bydwreigiaeth

### **Canllawiau**

Mae'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn arbenigo ym maes addysg bydwreigiaeth ac mae ganddi'r wybodaeth a'r sgiliau i ddatblygu polisi, yn ogystal â rhoi cyngor i eraill ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg bydwreigiaeth. Dylai gysylltu'n uniongyrchol ag asiantaethau comisiynu a phrynu ar gyfer addysg bydwreigiaeth, yn ogystal â chymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau sy'n wneud ag addysg bydwreigiaeth. Mae'n hanfodol bod rhaglenni addysg bydwreigiaeth yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth, yn ogystal â myfyrwyr. Felly, mae'n bwysig bod merched sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yn cymryd rhan ym mhob cam o'r broses o gynllunio cwricwlwm, datblygu a gwerthuso rhaglenni. Bydd hyn yn galluogi bydwreigedd dan hyfforddiant, ar adeg eu cofrestru, i ddiwallu anghenion merched a'u babanod. Mae cydweithredu strategol yn hanfodol am fod addysg bydwreigiaeth yn effeithio ar ofal bydwreigiaeth, gweithgarwch cynllunio'r gweithlu a'r broses o gomisiynu niferoedd myfyrwyr.

### Safon 3 – Llofnodi'r datganiad ategol o iechyd da a chymeriad da

Yn unol â rheol 6(1)(a)(ii) o'r rheolau cofrestru, y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg fydd yn gyfrifol, yn ôl ei disgresiwn, am lofnodi'r datganiadau ategol o iechyd da a chymeriad da ar gyfer pob cais i ran y bydwragedd o'r gofrestr.

Bydd y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod prosesau ar waith er mwyn bodloni gofynion cofrestru'r NMC ar gyfer y canlynol:
  - (a) ymuno â rhaglen addysg bydwreigiaeth sy'n arwain at unigolyn yn cael ei gofrestru am y tro cyntaf neu'n ailymuno â'r gofrestr yn dilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer
  - (b) cyfranogiad parhaus myfyrwraig mewn rhaglen addysg bydwreigiaeth sy'n arwain at yr unigolyn yn cael ei chofrestru am y tro cyntaf neu'n ailymuno â'r gofrestr yn dilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer
  - (c) unrhyw un sy'n cael ei dderbyn i ran y bydwragedd o'r gofrestr am y tro cyntaf neu sy'n ailymuno â'r gofrestr yn dilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer
- bod yn atebol am ei llofnod ar y datganiad ategol o iechyd da a chymeriad da
- bod â'r hawl i wrthod llofnodi unrhyw ddatganiad ategol o iechyd da a chymeriad da pan fo'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi ei bod yn bosibl nad yw'r fyfyrwraig yn bodloni'r gofynion o ran iechyd da a/neu gymeriad da ar gyfer ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel bydwraig.

### Canllawiau

Mae'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn atebol am ei hymarfer yn unol â'r *Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC, 2015)<sup>6</sup> a rheolau a safonau'r Bydwragedd.<sup>7</sup>

Os na ellir rhoi sicrwydd i fydwraig arweiniol ar gyfer addysg ynglŷn ag iechyd da a chymeriad da myfyrwraig ni ddylai lofnodi'r datganiad ategol sy'n ofynnol gan yr NMC. Felly, ni ellir argymhell y dylid derbyn y fyfyrwraig i ran y bydwragedd o'r gofrestr. Mewn achosion o'r fath, fe'i hystyrid yn arfer da i hysbysu'r NMC pam nad argymhellir y dylid derbyn y fyfyrwraig i'r gofrestr a chadarnhau bod y fyfyrwraig wedi gadael y rhaglen bydwreigiaeth.

Mae'r adran hon yn disgrifio safonau a chanllawiau ynglŷn â derbyn myfyrwyr i raglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru a gymeradwyir gan yr NMC a chyfranogiad parhaus myfyrwyr mewn rhaglenni o'r fath, yn unol ag Erthygl 15(1)(b) o'r Gorchymyn.

<sup>6</sup> Y *Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad i nyrsys a bydwragedd* (NMC, 2015). Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

<sup>7</sup> Rheolau a safonau bydwragedd (2012). Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

# Safonau ar gyfer ymuno â rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru a chyfranogi'n barhaus ynddynt

## Oedran cofrestru

Nid oes oedran gofynnol ar gyfer ymuno â rhaglenni mwyach, er bod y canllawiau canlynol yn dal i fod yn berthnasol.

## Canllawiau

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg gydymffurfio â'r canlynol:

- Erthygl 40(2) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) sy'n mynnu bod unigolyn sydd am hyfforddi i fod yn fydwaig naill ai wedi cwblhau o leiaf y 10 mlynedd gyntaf o addysg ysgol gyffredinol (ar gyfer rhaglen sy'n cynnwys o leiaf dair blynedd o astudiaethau damcaniaethol ac ymarferol llawn amser), neu ei fod yn meddu ar dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel nyrs gyffredinol (ar gyfer rhaglen llawn amser sy'n para o leiaf 18 mis).
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2004, sy'n cyfyngu ar y ffordd y gellir defnyddio pobl ifanc. Yn y cyd-destun hwn diffinnir 'person ifanc' fel 'unrhyw berson sydd o dan 18 oed'.

Y dogfennau allweddol sy'n ymwneud â hyn yw Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Hyfforddiant ar gyfer Cyflogaeth) 1990, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Gogledd Iwerddon) 2000.

## Safon 4 – Gofynion cyffredinol sy'n ymwneud â dethol ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni cymeradwy a chyfranogi'n barhaus ynddynt, ac ymuno â'r gofrestr

### 4.1 Y broses ddethol

Dylid darllen y gofynion canlynol ar gyfer dethol ymgeiswyr a'u rhoi ar waith ochr yn ochr â pholisïau a gweithdrefnau presennol darparwyr rhaglenni:

- lle y bo'n ymarferol, dylai'r broses ddethol gynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb
- anogir darparwyr rhaglenni (sefydliadau addysgol cymeradwy a'u partneriaid gwasanaethau), lle y bo'n bosibl, gynnwys lleygwyr a myfyrwyr bydwreigiaeth yn y broses ddethol. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau lleol gellir eu cynnwys yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y broses ddethol, e.e.:
  - wrth gynllunio ar gyfer recriwtio a dethol ymgeiswyr
  - wrth asesu neu bennu meini prawf cyfweld a dethol
  - wrth fonitro effeithiolrwydd prosesau dethol
  - wrth roi cyflwyniadau neu gyfarfod â darpar ymgeiswyr

- fel rhan o'r panel dethol
- dylai pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn y broses ddethol gael hyfforddiant priodol, dylid ei baratoi'n briodol a dylai gael y wybodaeth ddiweddaraf sy'n cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylid ystyried mater cefnogi a hyfforddi lleygwyr (y rhai nad ydynt wedi'u cofrestru â'r NMC , ac nad ydynt erioed wedi cael eu cofrestru â'r NMC) a/neu fyfyrwyr bydwreigiaeth sy'n cymryd rhan yn y broses yn ofalus
- dylai cynrychiolwyr sefydliadau darparu gwasanaethau partner gymryd rhan uniongyrchol yn y broses ddethol
- dylid ystyried barn unigolion sy'n cymryd rhan uniongyrchol yn y broses o ddethol ymgeiswyr wrth benderfynu'n derfynol a ddylid derbyn neu wrthod ymgeisydd.

## 4.2 Llythrennedd a rhifedd

Mae'n ofynnol i sefydliadau addysgol cymeradwy sicrhau bod ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru wedi darparu tystiolaeth o lythrennedd a rhifedd sy'n cynnwys sgiliau sylfaenol a enillwyd yn flaenorol sy'n ddigonol i ddilyn rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru i lefel foddhaol o gyrhaeddiad.

Ar gyfer rhifedd mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o'r gallu i wneud y canlynol:

- trafod rhifau yn gywir fel y'u cymhwysir at gyfaint, pwysau a hyd (gan gynnwys ychwanegu, tynnu, lluosu, defnyddio degolion, ffracsiynau a chanrannau), gan gynnwys defnyddio cyfrifiannell.

Ar gyfer llythrennedd mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o'r gallu i wneud y canlynol:

- darllen a deall (yn Gymraeg neu Saesneg) a chyfleu'n glir ac yn effeithiol yn ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio cyfrifiadur.

Os oes gan fyfyrwraig anabledd, gellir bodloni'r meini prawf uchod drwy ddefnyddio addasiadau rhesymol.

At ddibenion sicrhau ansawdd, mae angen i'r NMC gael mynediad i wybodaeth am systemau a pholisïau a ddatblygwyd er mwyn asesu llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru a thystiolaeth o'r ffordd y cânt eu defnyddio.

Efallai yr ystyrir bod ymgeiswyr sydd eisoes wedi'u cofrestru â'r NMC wedi bodloni gofynion yr NMC pan gawsant eu cofrestru gyntaf.

## Canllawiau

Mae gofynion yr NMC yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod gan y rhai sy'n ymuno â rhaglenni cyn cofrestru sylfaen o lythrennedd a rhifedd ar gyfer datblygu sgiliau cyfathrebu a chymhwysedd o ran cyfrifiadau cyffuriau. Gall tystiolaeth o lythrennedd a rhifedd gael ei darparu gan gymwysterau academiaidd neu alwedigaethol, drwy dystiolaeth megis galluoedd o ran sgiliau allweddol, neu drwy brosesau'r sefydliad addysgol cymeradwy ei hun, a all gynnwys portffolios neu brofion.

Canllaw yn unig yw'r enghreifftiau hyn. Mae gan sefydliadau addysgol cymeradwy yr hawl i bennu eu safonau eu hunain ond mae'n rhaid iddynt fodloni'r NMC fod digon o dystiolaeth i fodloni ei ofynion. Fe'i hystyrid yn arfer gorau pe bai'r sefydliad addysgol cymeradwy, darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr addysg yn cytuno ar y gofynion cofrestru addysgol ar y cyd.

Lle y bo'n bosibl, dylai'r dull o ddarparu tystiolaeth er mwyn bodloni gofynion llythrennedd a rhifedd ei gwneud yn bosibl i adborth gael ei roi i ymgeiswyr a'r rhai a dderbynnir i raglen. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i anghenion datblygiadol gael eu nodi a, lle y bo'n briodol, gael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen.

Pan gynigir y System Brofi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) fel tystiolaeth ar gyfer ymgeiswyr o wledydd tramor y tu allan i'r AEE, dylai darparwyr rhaglenni ddefnyddio gofynion yr NMC ar gyfer unigolion o wledydd tramor sydd am ymuno â'r gofrestr. Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn, mae'r NMC yn derbyn canlyniadau arholiadau IELTS (academaidd neu'r fersiwn gyffredinol) â sgôr o 7.0 o leiaf yn yr adrannau gwranddo a darllen, 7.0 o leiaf yn yr adrannau ysgrifennu a siarad a sgôr gyfartalog gyffredinol o 7.0 o leiaf.

### **4.3 Iechyd da a chymeriad da**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt iechyd da a chymeriad da sy'n ddigonol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel bydwraig, wrth ymuno â rhaglenni sy'n arwain at gofrestru â'r NMC ac ar gyfer cyfranogi'n barhaus ynddynt.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr o wledydd tramor fodloni'r gofynion o ran iechyd da a chymeriad da fel y'u diffinnir ar gyfer ymgeiswyr o'r DU a hefyd y gofynion hynny a nodir gan lywodraeth y DU ar gyfer gweithwyr gofal iechyd o wledydd tramor.

Os oes gan ymgeisydd gollfarn neu rybudd ffurfiol a roddwyd gan yr heddlu, mae'n rhaid datgan hyn.

Mae'n rhaid i sefydliadau addysgol cymeradwy gael tystiolaeth o iechyd da a chymeriad da'r ymgeisydd fel rhan o'u prosesau dethol, derbyn a monitro parhaus.

Nid yw myfyrwraig sydd eisoes wedi'i chofrestru â'r NMC ar ran wahanol o'r gofrestr wedi'i heithrio rhag y gofyniad hwn.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr rhaglenni fonitro cynnydd pob myfyrwraig a chymryd camau priodol os bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd da neu gymeriad da yn codi. Mae'n ofynnol i bob darparwr rhaglenni gael panelau Addaswydd i Ymarfer o fis Ionawr 2009 i ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd a chymeriad a sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i gael ei ddiogelu.

## Canllawiau

Mae'r NMC yn ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr rhaglenni yn sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer asesu iechyd da a chymeriad da pob ymgeisydd/myfyrwraig pan fydd unigolion yn ymuno â rhaglenni bydweigiaeth cyn cofrestru, yn ystod y rhaglenni hynny ac ar ôl iddynt eu cwblhau. Gall prosesau o'r fath gynnwys cyfuniad o holiaduron iechyd hunanasesu, hunanddatganiad o gymeriad da, profion sgrinio iechyd arferol, asesu iechyd galwedigaethol, tystlythyrau, gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a mesurau eraill y cytunwyd arnynt rhwng y darparwyr rhaglenni.

Dylai myfyrwyr sy'n datgan, wrth gyflwyno cais, fod ganddynt anabledd gyflwyno asesiad ffurfiol o'u cyflwr a'u hanghenion penodol, gan feddyg teulu neu awdurdod meddygol neu gydnabyddedig arall, i'r adran iechyd galwedigaethol berthnasol. Dylai darparwyr rhaglenni gymhwyso polisi lleol yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005<sup>8</sup> ar gyfer dewis a recriwtio myfyrwyr/cyflogeion ag anableddau. Lle y bo'n briodol, dylid cynnwys gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr y sefydliad hefyd. Byddai angen i'r NMC gael tystiolaeth o'r ffordd y câi myfyrwyr o'r fath eu cefnogi mewn amgylcheddau academaidd ac ymarferol er mwyn sicrhau ymarfer diogel ac effeithio sy'n ddigonol i gofrestru'r myfyrwyr hynny yn y dyfodol.

### 4.4 Ymuno â'r gofrestr

Mae'r NMC yn gofyn am hunanddatganiad o iechyd da a chymeriad da gan bawb sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf. Ar ôl cwblhau rhaglen bydweigiaeth bydd y fyfyrwraig yn cyflwyno'r hunanddatganiad hwn. Mae'r datganiad naill ai'n cael ei gefnogi gan y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg, y mae'r Cyngor wedi'i hysbysu o'i henw ac sy'n gyfrifol am addysg bydweigiaeth yn y sefydliad addysgol cymeradwy perthnasol, neu gan y fydwraig gofrestredig ddynodedig sy'n dirprwyo drosti. Mae'n rhaid i sefydliadau addysgol cymeradwy allu darparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi bodloni'r gofyniad hwn.

## Canllawiau

Wrth gadarnhau datganiad myfyrwraig o iechyd da a chymeriad da ar ôl iddi gwblhau'r rhaglen, mae'n rhaid i'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg fod â gwybodaeth am y fyfyrwraig honno. Mae'n atebol am ei phenderfyniad i lofnodi'r datganiad.

Drwy gydol y rhaglen byddai'r NMC yn disgwyl i'r myfyrwyr ddatblygu eu hymarfer yn unol â'r *Cod: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd*.<sup>9</sup>

<sup>8</sup> Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Y Llyfra, Norwich, ([www.hmsso.gov.uk](http://www.hmsso.gov.uk))

<sup>9</sup> Y *Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC, 2015). Y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))



## **Safon 5 – Ymyriadau â rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru**

Mae'n rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau eu bod yn rhoi prosesau ar waith i reoli ymyriadau sy'n atal myfyrwyr rhag astudio rhaglenni am ba reswm bynnag.

Pan fydd myfyrwraig yn dychwelyd i raglen argymhellir y dylai gael cyfnod ymgyfarwyddo sy'n addas i hyd yr ymyriad. Mae'n rhaid i ddarparwyr rhaglenni sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau sydd eisoes gan y fyfyrwraig yn dal i fod yn ddilys, gan ei galluogi i gyrraedd y safonau gofynnol pan fydd yn cwblhau'r cwrs.

### **Canllawiau**

At ddiben y safon hon, ystyr ymyriad yw unrhyw absenoldeb o raglen addysg ac eithrio gwyliau blynyddol, statudol neu gyhoeddus.

Gweler hefyd Safon 10 – Hyd y rhaglen.

## **Safon 6 – Ymuno â rhaglenni â statws uwch**

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd, ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cofrestru fel nyrs lefel 1 (oedolyn), gwblhau rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru sy'n para o leiaf dair blynedd.

Pan fydd myfyrwraig eisoes wedi'i chofrestru â'r NMC fel nyrs lefel 1 (oedolyn), ni fydd hyd y rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru yn llai na 18 mis llawn amser (sy'n cyfateb i 78 wythnos llawn amser).

### **Canllawiau**

Statws uwch yw lle mae myfyrwraig yn ymuno â rhaglen cyn cofrestru gan ei bod wedi'i chofrestru'n flaenorol â'r NMC, sy'n golygu ei bod yn gallu dilyn rhaglen fyrrach. Mae'r safon hon yn cydymffurfio ag Erthygl 40 (1)(b) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC lle mae gan ymgeiswyr hawl i ddilyn rhaglen fyrrach am eu bod wedi'u cofrestru'n flaenorol fel nyrs lefel 1 (oedolyn) â'r NMC. Nid oes gan ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru â'r NMC fel nyrs lefel 1 mewn meysydd nyrsio eraill (iechyd meddwl, anableddau dysgu neu blant) hawl i ddilyn rhaglen bydwreigiaeth fyrrach.

## **Safon 7 – Trosglwyddo rhwng sefydliadau addysgol cymeradwy**

Cyfrifoldeb sefydliadau addysgol yw penderfynu p'un a ddylent dderbyn cais i drosglwyddo ai peidio. Dim ond os bodlonir y meini prawf isod y gall myfyrwyr drosglwyddo eu rhaglen â chredyd ar gyfer dysgu blaenorol:

- maent yn trosglwyddo rhwng rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru a gymeradwyir gan yr NMC
- bodlonir gofynion perthnasol yr NMC ar gyfer iechyd da a chymeriad da
- gellir mapio dysgu blaenorol y fyfyrwraig yn erbyn y rhaglen y mae am drosglwyddo iddi, gan ei galluogi i fynd ymlaen i gyflawni'r holl ddeilliannau a chyrraedd yr holl safonau angenrheidiol ar ôl cwblhau'r cwrs.

## **Safon 8 – Gadael ac ailymuno â rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru**

Gall myfyrwyr adael rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os byddant wedi cwblhau cyfnod astudio yn llwyddiannus
- os byddant wedi gadael rhaglen cyn iddi gael ei chwblhau
- os byddant wedi cael credydau addysg ac ymarfer gan y darparwr rhaglenni gwreiddiol (byddai hyn yn ôl disgrisiwn y sefydliad addysgol cymeradwy)
- os na fyddant wedi cael eu hatal rhag parhau â'r rhaglen gan y darparwr addysg.

Gall myfyrwyr ailymuno â rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru o dan yr

amgylchiadau canlynol:

- pan fyddant wedi bodloni'r gofynion ar gyfer gadael rhaglen
- mae'r rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru y maent am ymuno â hi yn debyg i'r un bresennol, boed yn yr un sefydliad addysgol cymeradwy neu mewn sefydliad addysgol cymeradwy arall a gymeradwyir gan yr NMC
- gallant gwblhau'r rhan o'r rhaglen cyn cofrestru sy'n weddill o fewn y terfyn amser a nodir gan yr NMC, lle mai'r dyddiad dechrau yw'r dyddiad y dechreuodd y fyfyrwraig y rhaglen wreiddiol
- maent wedi bodloni gofynion yr NMC ar gyfer iechyd da a chymeriad da
- cafwyd tystlythyrau boddhaol gan y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn y sefydliad addysgol cymeradwy gwreiddiol
- mae'r fyfyrwraig yn treulio cyfnod o amser yn ymgyswrtu sy'n addas i'r cyfnod rhwng gadael y rhaglen ac ailymuno â hi. Y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg yn y sefydliad addysgol cymeradwy newydd fydd yn pennu hyd y cyfnod hwn mewn perthynas â'r cyfnod o amser rhwng gadael y rhaglen ac ailymuno â hi.

## Canllawiau

Mae'r termau 'ailymuno' a 'gadael' yn cyfeirio at fydwragedd dan hyfforddiant sy'n penderfynu rhoi'r gorau i'w rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru ac sydd wedyn am ailgychwyn eu hastudiaethau yn ddiweddarach.

Mater i'r sefydliad addysgol a gymeradwyir gan yr NMC yw penderfynu faint o gredyd y gellir ei ystyried mewn perthynas â myfyrwyr sy'n ailymuno â rhaglen cyn cofrestru.

Mae'r adran hon yn disgrifio safonau ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru, yn unol ag Erthygl 15(1)(a) o'r Gorchymyn.

## Safonau ar gyfer strwythur a natur rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

### Safon 9 – Safon academaidd y rhaglen

Ers mis Medi 2008 y lefel academaidd ofynnol ar gyfer ymuno â rhan y bydwreagedd o'r gofrestr ar gyfer y rhai sy'n ymuno â rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru yw lefel gradd (Cylchlythyr 14/2007 yr NMC).

## Canllawiau

Mae lefel gradd yn cynnwys o leiaf:

- yr Alban – 360 o gredydau academaidd, y mae'n rhaid i 60 ohonynt fod ar lefel 9
- Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – 300 o gredydau academaidd, y mae'n rhaid i 60 ohonynt fod ar lefel H.

Gall darparwyr rhaglenni bennu lefelau academaidd uwch lle y bo'n briodol. Dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â chomisiynwyr addysg.

### Safon 10 – Hyd y rhaglen

Fel y nodir yn Erthygl 41 o Gyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE, ni ddylai rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru bara llai na thair blynedd (o leiaf 4600 o oriau) a bydd pob blwyddyn yn cynnwys o leiaf 45 o wythnosau wedi'u rhaglennu. Pan fydd myfyrwraig eisoes wedi'i chofrestru â'r NMC fel nyrs lefel 1 (oedolyn), ni fydd y rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru yn para llai na 18 mis (o leiaf 3000 o oriau) neu gyfnod pro-rata yn ôl yr amser cyfatebol.

## Canllawiau

Mae rhaglen llawn amser sy'n cynnwys o leiaf 156 wythnos neu 78 wythnos yn cynnwys unrhyw wyliau blynyddol fel rhan o'r rhaglen. Mater i ddarparwr y rhaglen a'r comisiynydd/comisiynwyr perthnasol fyddai penderfynu a fyddai angen ymestyn yr isafswm cyfnod y byddai'n ofynnol i'r rhaglen bara er mwyn diwallu anghenion lleol.

(Gweler hefyd Safon 5 – Ymyriadau â rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru).

## Safon 11 – Cymorth i fyfyrwyr

Mae'n rhaid i athrawon bydwagedd a mentoriaid bydwagedd gyrraedd safonau'r NMC i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer.<sup>10</sup>

### Canllawiau

Dylai bydwagedd dan hyfforddiant gael eu cefnogi mewn amgylcheddau academaidd ac amgylcheddau dysgu ymarfer. Mae gan athrawon bydwagedd a mentoriaid bydwagedd y wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd i roi cymorth priodol i fydwagedd dan hyfforddiant. Felly, dylent allu nodi cyfleoedd dysgu priodol ar gyfer bydwagedd dan hyfforddiant a chynnig cyngor ac arweiniad er mwyn datblygu ymarfer diogel sy'n canolbwyntio ar ferched sy'n galluogi myfyrwyr i ddod yn fydwagedd.

Mae Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer<sup>14</sup>, a gyhoeddwyd gan yr NMC, yn esbonio bod yr NMC yn disgwyl i athrawon bydwagedd allu cefnogi dysgu ac asesu mewn amgylcheddau academaidd ac amgylcheddau dysgu ymarfer. Hefyd, disgwylir y bydd gan athrawon bydwagedd brofiad cyfredol er mwyn cefnogi dysgu ac asesu mewn lleoliadau ymarfer. Gall profiad o'r fath ymddangos mewn ffurfiau gwahanol, gan gynnwys:

- gweithredu fel tiwtor cyswllt
- helpu i ddatblygu mentoriaid a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf
- cyflawni rôl glinigol ran-amser
- cefnogi staff clinigol yn eu datblygiad proffesiynol mewn ymarfer
- cymryd rhan yn y broses o ddatblygu ymarfer er mwyn ategu'r sail dystiolaeth y mae myfyrwyr yn ei defnyddio
- cyfrannu at waith ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer

Felly, disgwylir i athrawon dreulio rhan o'u hamser yn cefnogi dysgu myfyrwyr mewn ymarfer a dylai hyn gyfateb i tua 20 y cant o'u horiau addysgu arferol. Câi hyn ei fonitro drwy fframwaith sicrhau ansawdd yr NMC.

Gall nifer o aelodau o'r tîm addysgu a gofal iechyd gyfrannu at ddysgu myfyrwyr, ond er mwyn ei gwneud yn bosibl i theori gael ei chymhwyso at ymarfer, mae'n rhaid i athro bydwagedd ddarparu'r rhan fwyaf o'r mewnbyn addysgu/academaidd. Mae'n rhaid i ddysgu rhyngbroffesiynol ddigwydd yng nghyd-destun ei berthnasedd â gwybodaeth a sgiliau bydwreigiaeth ac mae'n rhaid iddo sicrhau y cyflawnir Cyfarwydddebau'r UE o ran oriau a chynnwys bydwreigiaeth.

Mae'n rhaid i sefydliadau addysgol cymeradwy gynnal archwiliadau rheolaidd o'r amgylcheddau dysgu y rhoddir myfyrwyr ynddynt. Un o ganlyniadau'r archwiliadau hyn fydd nodi nifer y myfyrwyr y gall amgylchedd eu cynnal yn effeithiol, o nifer y mentoriaid bydwagedd sydd ar gael a faint o brofiad sydd ar gael ym maes beichiogrwydd a genedigaeth naturiol.

<sup>10</sup> Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer (2008). Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

## **Safon 12 – Cydbwysedd rhwng ymarfer clinigol a theori**

Ers mis Medi 2008, mae'n ofynnol i gymhareb ymarfer i theori pob rhaglen gyfateb i o leiaf 50 y cant o ymarfer ac o leiaf 40 y cant o theori. Mae'n rhaid i'r profiad o ymarfer clinigol fod yn ddigonol i alluogi myfyrwyr i gyrraedd y safonau sy'n ofynnol gan yr NMC.

Mae'n rhaid i'r rhaglen gynnwys amrywiaeth o strategaethau dysgu ac addysgu, a all gynnwys efelychu. Mae'n rhaid i'r cyfan o'r rhan o'r rhaglen sy'n ymdrin ag ymarfer clinigol gynnwys cyswllt uniongyrchol â gofalu am ferched a babanod. Mae'n rhaid i'r gwaith o gymhwyso theori at ymarfer bydweigiaeth yn yr amgylchedd dysgu academiaidd gael ei wneud gan athro bydwragedd. Ni fyddai hyn yn eithrio bydwragedd sy'n dilyn rhaglenni paratoi athrawon.

### **Canllawiau**

Mae'n rhaid treulio o leiaf 50 y cant o oriau'r cwricwlwm sydd ar gael mewn ymarfer clinigol. Mae hyn yn ystyried yr oriau amrywiol fesul wythnos waith y mae sefydliadau addysgu yn eu cymhwyso at y rhaglen.

Ymarfer clinigol yw'r rhan honno o'r rhaglen addysg bydweigiaeth lle mae'r fydwraig dan hyfforddiant yn cael ei goruchwyllo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan fydwraig pan fydd yn darparu gofal i ferched a babanod. Mae'r fyfyrwraig mewn cysylltiad uniongyrchol â merched a babanod, gan gynllunio gofal bydweigiaeth, ei ddarparu ac asesu'r angen amdano a faint o ofal sydd ei angen ar sail ei gwybodaeth a'i sgiliau.

Goruchwyllo uniongyrchol yw lle y byddai bydwraig sy'n ymarfer fel arfer yn agos at y fyfyrwraig, naill ai drwy weithio'n uniongyrchol â hi neu'n ddigon agos i fonitro ei gweithgareddau yn uniongyrchol. Tra bod goruchwyliaeth anuniongyrchol yn galluogi myfyrwyr i feithrin hyder ac annibyniaeth, dim ond er mwyn cefnogi myfyrwyr uwch a lle mae tystiolaeth y gellir dirprwyo gweithgareddau cymhleth yn ddiogel ac yn gyfrifol y dylid mabwysiadu'r dull hwn o weithredu. Eto i gyd, yn achos goruchwyliaeth anuniongyrchol mae'n ofynnol y gellir cysylltu â'r fydwraig yn hawdd ac y gall ddarparu'r gofal sydd ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd a diogelu'r merched a'r fyfyrwraig.

## **Safon 13 – Cwmpas profiad o ymarfer**

Pan fydd cyfle i wneud hynny, dylid cynnwys myfyrwyr yn y gwaith o helpu merched i roi genedigaeth mewn amrywiaeth o leoliadau.

Mae'n rhaid i fydwragedd dan hyfforddiant gymryd rhan yn y broses o ofalu am grŵp bach o ferched drwy gydol eu profiad o roi genedigaeth, gan gynnwys gofal cynenedigol, 'intrapartum' ac ôl-enedigol. Mae'r sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â rôl gofalwr arweiniol i ferched ag anghenion meddygol a/neu obstetrig cymhleth yn rhai datblygol a dylai bydwragedd sicrhau cymhwysedd ar ôl cael eu cofrestru am y tro cyntaf.

### **Canllawiau**

Mae merched yn rhoi genedigaeth yn naturiol mewn amrywiaeth o leoliadau. Dylai myfyrwyr gael profiad o helpu merched i roi genedigaeth mewn lleoliadau heblaw unedau mamolaeth

aciwt, megis yn y cartref, mewn canolfannau geni ac mewn unedau dan arweiniad bydwragedd. O dan amgylchiadau eithriadol, derbynnir efallai na fydd hyn yn bosibl. Fodd bynnag, byddai'r NMC yn disgwyl i bob cyfle gael ei ddefnyddio i helpu myfyrwyr i gael profiad eang.

Dylai ymarfer clinigol roi cyfle i fyfyrwyr brofi gofal sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, gan eu galluogi i feithrin dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau merched a babanod yn ystod cyfnod o 24 awr.

Er ei bod yn hanfodol y gall myfyrwyr gael ystod lawn o brofiadau ymarfer er mwyn cyrraedd y safonau angenrheidiol, mater i'r fydwraig yw penderfynu a yw'n briodol dirprwyo tasgau sydd ynghlwm wrth ofalu am ferch neu ei baban. Mae'r fydwraig yn dal i fod yn atebol am briodoldeb unrhyw benderfyniad i ddirprwyo gofal.

Prif ffocws rhaglenni bydweigiaeth cyn cofrestru yw sicrhau bod myfyrwyr yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol wrth helpu merched i roi genedigaeth yn naturiol. Mae'n rhaid i'r rhaglen ddatblygu gwybodaeth a sgiliau bydwragedd dan hyfforddiant, er mwyn sicrhau, ar adeg eu cofrestru, eu bod yn gymwys ac yn hyderus wrth helpu merched i roi genedigaeth yn naturiol. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid rhoi sylw i'r sgiliau sydd ynghlwm wrth wneud penderfyniadau hanfodol bwysig er mwyn hwyluso'r broses o atgyfeirio merched neu fabanod yn briodol at weithwyr iechyd proffesiynol neu asiantaethau eraill pan gydnabyddir bod prosesau naturiol yn cael eu handwyo a'u peryglu. Mae'n rhaid i fydwragedd wybod pryd mae angen atgyfeirio merched neu eu babanod at weithwyr iechyd proffesiynol eraill, megis obstetryddion neu bediatryddion, er mwyn sicrhau y byddant yn cael y gofal priodol. Pan fydd angen atgyfeirio merched, mae'n rhaid i fydwragedd hefyd feddu ar y sgiliau i weithio fel rhan o dîm rhyngbroffesiynol/amlasiantaeth. Mae angen i fydwragedd ddatblygu medrusrwydd i gyflawni rôl bydwaig sy'n ofalwr arweiniol i ferched ag anghenion meddygol neu obstetrig cymhleth ar ôl cael eu cofrestru am y tro cyntaf.

Mae'r fydwraig dan hyfforddiant yn gweithio tuag at sicrhau y gall ymarfer yn annibynnol ar adeg ei chofrestru. Dylid ei helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel aelod effeithiol o dîm rhyngbroffesiynol/amlasiantaeth lle y bydd yn gyfrifol am ofal bydweigiaeth.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr roi gofal a chymorth i grŵp o ferched o ddechrau eu beichiogrwydd, drwy gydol y cyfnod cynenedigol, yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth ac wedyn yn y cyfnod ôl-enedigol nes y bydd gofal gan y fydwraig wedi'i gwblhau. Gall hyn fod ar ffurf dal llwyth achosion. Mae rhoi'r profiad hwn i bob bydwaig dan hyfforddiant yn ei galluogi i ddeall effaith beichiogrwydd, geni ac integreiddio'r baban newydd i fywyd teuluol yn well, yn ogystal â dysgu am faterion ymarferol cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal bydweigiaeth mewn ffordd sy'n berthnasol i ferched.

## **Safon 14 – Statws ychwanegol yn ystod lleoliad clinigol**

Ni ellir cyflogi myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni addysg bydweigiaeth cyn cofrestru i ddarparu gofal bydweigiaeth yn ystod eu hyfforddiant – dylai unrhyw brofiad clinigol fod yn seiliedig ar addysg gyda myfyrwyr yn cael statws ychwanegol hyd at ddiwedd y rhaglen.

## **Safon 15 – Strategaeth asesu**

Mae'n rhaid graddio a chyfrif ymarfer clinigol fel rhan o'r dyfarniad academaidd.

Mae'n rhaid i bob deiliant o fewn cyfnod pwyntiau cynnydd (er enghraifft blwyddyn



academaidd) gael ei gyflawni a'i gadarnhau o fewn 12 wythnos i ymuno â'r lefel academaidd nesaf. Mae'n rhaid cwblhau a phasio pob asesiad cyn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Bwriedir i hyn gadarnhau bod gan y fyfyrwraig y wybodaeth ddamcaniaethol, y sgiliau ymarferol a'r agwedd i gyrraedd y safonau sydd eu hangen er mwyn ymuno â rhan y bydwragedd o'r gofrestr.

Bydd bydwrraig dan hyfforddiant yn cyrraedd y safonau hyn o dan oruchwyliaeth mentor cymeradwyo, a fydd yn gyfrifol am gadarnhau bod y safonau dan sylw wedi'u cyrraedd. Mae'n rhaid i'r mentor cymeradwyo fod yn fydwrraig sy'n ymarfer.

## **Canllawiau**

Mae dysgu y mae myfyrwyr yn ymgymryd ag ef o fewn rhaglenni addysg bydweigiaeth cyn cofrestru yn digwydd yn y brifysgol ac mewn ymarfer clinigol. Mae'n rhaid i waith asesu ymarfer, sy'n cynnwys gofal ymarferol uniongyrchol, gael ei raddio. Mae'n rhaid i'r graddau a enillir gyfrannu at ganlyniad y dyfarniad academaidd terfynol. Os bydd y gwaith o asesu ymarfer clinigol yn cynnwys amrywiaeth o elfennau a bod y fyfyrwraig yn methu â sicrhau cymhwysedd mewn un o'r elfennau, mae'n rhaid i'r fyfyrwraig fethu.

Mae'n rhaid i raglenni newydd a gymeradwywyd ers 1 Medi 2008 gydymffurfio â'r safonau i raddio ymarfer. Mae'n rhaid i bob rhaglen a gymeradwywyd ers mis Medi 2008 gydymffurfio â'r safon erbyn 1 Medi 2009.

Diffinnir pwynt cynnydd fel 'pwynt (neu bwyntiau) a bennwyd at ddibenion llunio barn gyfunol ar ymarfer diogel ac effeithiol mewn rhaglen'. Mae'r terfyn amser o 12 wythnos yn cynnwys theori ac ymarfer. Mae yr un mor gymwys i raglenni llawn amser a rhan- amser a rhaglenni byr a hir cyn cofrestru. Mae'r cyfnod o 12 wythnos hefyd yn cynnwys gwyliau. Ni chaniateir ymestyn y cyfnod o 12 wythnos.

Dylid defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu i asesu gwybodaeth am fydweigiaeth, sgiliau ymarferol ac agwedd. Dylai hyn gynnwys o leiaf un arholiad nas gwelwyd. Diffinnir arholiad fel darn o waith nas gwelwyd a gwblheir o dan amodau wedi'u goruchwyllo sy'n profi gwybodaeth ddamcaniaethol, sgiliau ymarferol ac agwedd y fyfyrwraig. Gall y ffurf amrywio, er enghraifft ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu penodol megis dyslecsia, neu er mwyn diwallu anghenion pwnc, e.e. drwy ddefnyddio arholiadau clinigol strwythuredig, gwrthrychol.

Bydd athrawon bydwragedd a mentoriaid bydwragedd yn cymryd rhan yn y gwaith o asesu gallu'r fyfyrwraig i ymuno â rhan y bydwragedd o'r gofrestr. Er y gall aelodau eraill o'r tîm addysgu ac iechyd gyfrannu at y gwaith o asesu theori ac ymarfer bydwragedd dan hyfforddiant, ni ddylent gynnal asesiadau cyfunol o'r safonau sydd eu hangen er mwyn ymuno â rhan y bydwragedd o'r gofrestr. Mae'n rhaid dilyn egwyddorion sylw dyledus. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â chymhwyso egwyddorion sylw dyledus at ddysgu ac asesu mewn ymarfer ar gyfer bydwragedd dan hyfforddiant, a'r ffyrdd y gellir eu cymhwyso mewn modd mwy hyblyg heb amharu ar y gwaith o asesu cymhwysedd myfyrwyr, yn destun Cylchlythyr 2/2008 yr NMC, y gellir ei weld ar wefan yr NMC.

Ni fydd myfyrwraig sy'n methu â phasio pob elfen o'r strategaeth asesu a gymeradwyir gan yr NMC, gan gynnwys y prosesau ar gyfer ailbrofi y cytunwyd arnynt, yn gynnwys i gofrestru fel bydwrraig ar ddiwedd y rhaglen.

## Safon 16 – Cofnod parhaus o gyflawniad

Mae'n rhaid trosglwyddo cofnod parhaus o gyflawniad, gan gynnwys sylwadau gan fentoriaid, o'r naill lleoliad i'r llall fel y gellir llunio barn ar gynnydd y fyfyrwraig.

### Canllawiau

Mae'r cofnod parhaus o gyflawniad yn rhan o'r ddogfen Asesu Ymarfer ac mae angen iddo fod yn ddigon manwl er mwyn galluogi'r mentoriaid cymeradwyo bydwagedd i gadarnhau bod myfyrwraig yn hyfedrus ar adegau penodol yn y rhaglen. Mae'n rhaid hysbysu'r fyfyrwraig am bob cam a gymerir. Ni ddylai mentoriaid gadw eu cofnodion ar wahân eu hunain o gynnydd myfyrwyr; dylid cynnwys popeth yn y ddogfen Asesu Ymarfer.

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau'r canlynol:

- eu bod yn cael caniatâd y fyfyrwraig i brosesu neu rannu data cyfrinachol rhwng mentoriaid olynol ac â darparwyr addysg perthnasol yn y broses o asesu addasrwydd i ymarfer
- bod prosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau, os oes problemau neu bryderon ynghylch cynnydd myfyrwraig, yr ymdrinnir â'r rhain yn brydlon ac yn briodol
- os oes pryderon difrifol ynghylch iechyd neu gymeriad myfyrwraig, y rhoddir gwybod amdanynt yn brydlon gan ddefnyddio gweithdrefnau prifysgol sefydledig
- bod myfyrwyr yn cael cymorth i fynd i'r afael â phroblemau a phryderon drwy gynllun datblygu pendant â therfyn amser, naill ai o fewn lleoliad neu ar draws lleoliadau olynol
- bod myfyrwyr anabl yn cael eu hasesu'n briodol a'u helpu i fodloni gofynion unrhyw gynllun datblygu.

## Cyrraedd safonau'r NMC

Mae angen i fyfyrwyr ddangos hyfedredd ym mhob un o'r safonau erbyn diwedd eu hyfforddiant er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel bydwraig heb fod angen eu goruchwyllo'n uniongyrchol. Mae'n rhaid i fyfyrwraig ddangos cymhwysedd o ran y safonau hyn er mwyn ymuno â'r gofrestr fel bydwraig. Dilynr pob un o'r datganiadau canlynol gan rai enghreifftiau o ddeilliannau y mae'n rhaid iddynt gyfrif tuag at gyrraedd y safonau hyn. Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddir yn rhestr gynhwysfawr.

### Safon 17 – Cymwyseddau sydd eu hangen i gyrraedd safonau'r NMC

Mae'r cymwyseddau hyn wedi'u rhannu'n bedwar maes, sef:

- ymarfer bydwreigiaeth effeithiol
- ymarfer proffesiynol a moesegol
- datblygu'r fydwraig unigol ac eraill
- sicrhau gofal o ansawdd drwy werthuso a gwaith ymchwil.

Dylai pob categori o dan y penawdau hyn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Clystyrau Sgiliau Hanfodol perthnasol, fel y'u rhestrir. Mae'r Clystyrau Sgiliau Hanfodol eu hunain yn dilyn yr adran hon, gan ddechrau ar dudalen 36.

#### Maes: Ymarfer bydwreigiaeth effeithiol

Cyfathrebu'n effeithiol â merched a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod cyn beichiogi, y cyfnod cynenedigol, y cyfnod 'intrapartum' a'r cyfnod ôl-enedigol. Bydd cyfathrebu yn cynnwys y canlynol:

- gwranddo ar ferched a'u helpu i adnabod eu teimladau a'u pryderon ynghylch eu bechiogrwydd, yr enedigaeth a'r newidiadau cysylltiedig iddynt hwy eu hunain a'u bywydau
- galluogi merched i ystyried eu teimladau
- galluogi merched i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u hiechyd a'u gofal iechyd
- mynd ati i annog merched i feddwl am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu babanod a'u teuluoedd, a sut y gellir ei wella
- cyfathrebu â merched yn ystod eu bechiogrwydd, y cyfnod esgor a'r cyfnod ar ôl iddynt roi genedigaeth.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Cadarnhau bod y ferch yn feichiog a'i hasesu a'i monitro mewn ffordd gyfannol yn ystod y cyfnod cyn beichiogi, y cyfnod cynenedigol, y cyfnod 'intrapartum' a'r cyfnod ôl-enedigol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu a dod i gasgliadau dilys, dibynadwy a chynhwysfawr. Bydd y gwahanol ddulliau asesu yn cynnwys y canlynol:

- nodi hanes y ferch
- arsylwi
- archwiliad corfforol
- profion bioffisegol
- asesiadau cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol.

**Clwstr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny.**

Pennu a darparu rhaglenni gofal a chymorth i ferched:

- sy'n briodol i anghenion, cyd-destunau, diwylliant a dewisiadau merched, babanod a'u teuluoedd
  - a lunnir mewn partneriaeth â merched
  - sy'n foesebol
  - sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau a barn glinigol
  - sy'n cynnwys gweithwyr gofal iechyd eraill pan fydd hyn yn gwella canlyniadau iechyd
- Bydd hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:
- cynlluniau geni
  - y man geni
  - cynlluniau ar gyfer bwydo babanod
  - anghenion o ran cymorth ôl-enedigol
  - paratoi ar gyfer anghenion bod yn rhiant.

**Clwstr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Darparu gofal di-dor a, lle y bo'n briodol, cyflawni ymyriadau, mewn partneriaeth â merched a darparwyr gofal eraill yn ystod y cyfnod cynenedigol:

- sy'n briodol i anghenion wedi'u hasesu, cyd-destun a diwylliant merched
- sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u lles parhaus
- sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- sy'n cyd-fynd â'r gwaith o reoli risg
- sy'n defnyddio sgiliau pobl eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau

Bydd y rhain yn cynnwys:

- gweithredu fel y gofalwr arweiniol i ferched sy'n cael beichiogrwydd arferol
- cyfrannu at y gwaith o ddarparu cymorth i ferched pan fyddant yn cael problemau gyda'u beichiogrwydd (megis merched y bydd angen iddynt gael llawdriniaeth neu gymorth er mwyn rhoi genedigaeth)
- gofalu am ferched sydd wedi colli beichiogrwydd
- trafod/cyd-drafod ymyriadau pellach sy'n briodol i ferched unigol â gweithwyr proffesiynol eraill, gan ystyried dymuniadau'r merched hynny, eu cyd-destun a'u diwylliant
- sicrhau bod canfyddiadau gwaith ymchwil cyfredol a thystiolaeth arall yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer
- gweithio fel tîm er budd merched unigol.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Rheoli meddyginiaethau**

Atgyfeirio merched a fyddai'n cael budd o sgiliau a gwybodaeth unigolion eraill:

- at unigolyn sy'n debygol o feddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen er mwyn ei chynorthwyo
- cyn gynted â phosibl
- gan ddarparu gwybodaeth gywir, darllenadwy a chyflawn sy'n cynnwys y rheswm/rhesymau dros atgyfeirio'r ferch ac yn disgrifio ei hanghenion a'i dewisiadau.

Gallai atgyfeiriadau ymwneud â'r canlynol:

- dewisiadau merched
- materion iechyd
- materion cymdeithasol
- materion ariannol
- materion seicolegol
- materion amddiffyn plant
- y gyfraith.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny.**

Gofalu am ferched, eu monitro a'u cynorthwyo yn ystod y cyfnod esgor a monitro cyflwr y ffetws, gan helpu merched i roi genedigaeth yn naturiol. Bydd hyn yn cynnwys:

- cyfathrebu â merched drwy gydol yr amser a'u cefnogi drwy'r profiad
- sicrhau bod y gofal yn sensitif i ddiwylliant a dewisiadau merched unigol
- defnyddio dulliau clinigol a thechnegol priodol i fonitro cyflwr y fam a'r ffetws
- rhoi meddyginiaethau rheoli poen priodol.
- rhoi gofal priodol i ferched ar ôl iddynt roi genedigaeth.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Rheoli meddyginiaethau**



Rhoi triniaethau brys priodol er mwyn diwallu anghenion merched a babanod. Bydd triniaethau brys yn cynnwys y canlynol:

- tynnu'r brych â llaw
- archwilio'r wterws â llaw
- rheoli gwaedlif ôl-enedigol
- dadebru'r fam a/neu'r baban
- cyflwyniad ffolennol heb ei ganfod.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Rheoli meddyginiaethau**

Archwilio babanod a gofalu amdanynt yn syth ar ôl iddynt gael eu geni. Bydd hyn yn cynnwys:

- cadarnhau eu harwyddion hanfodol a chymryd camau priodol
- cynnal asesiad ac archwiliad corfforol llawn.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Rheoli meddyginiaethau**

Gweithio mewn partneriaeth â merched a darparwyr gofal eraill yn ystod y cyfnod ôl-enedigol er mwyn darparu gofal di-dor a chyflawni ymyriadau:

- sy'n briodol i i anghenion wedi'u hasesu, cyd-destun a diwylliant y ferch
- sy'n hyrwyddo ei hiechyd a'i lles parhaus
- sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- sy'n cyd-fynd â'r gwaith o reoli risg
- a gyflawnir gan y fydwraig gan mai hi yw'r person gorau i'w cyflawni a'i bod yn gymwys i weithredu
- defnyddio sgiliau pobl eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau.

Bydd gofal yn cynnwys y canlynol:

- rhoi cymorth a chynghor i ferched wrth iddynt ddechrau bwydo'r baban a gofalu amdano
- rhoi unrhyw gymorth penodol sydd ei angen i ferched ag anableddau
- rhoi gofal wedi llawdriniaeth i ferched sydd wedi cael toriad Cesaraid neu llawdriniaeth i'w galluogi i roi genedigaeth
- rhoi meddyginiaethau lleddfu poen i ferched
- gweithio fel tîm er budd merched a'u babanod
- hwyluso trafodaeth ynghylch dewisiadau atgenhedlu yn y dyfodol
- rhoi gofal i ferched sydd wedi colli beichiogrwydd neu sydd wedi cael baban marw-anedig neu faban a oedd wedi marw cyn cael ei eni

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Archwilio babanod ag anghenion iechyd neu anghenion cymdeithasol penodol a gofalu amdanynt a'u hatgyfeirio at weithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill fel y bo'n briodol. Bydd yr anghenion hyn yn cynnwys:

- amddiffyn plant
- anhwylderau cynhenid
- namau geni
- pwysau isel adeg genedigaeth
- cyflyrau patholegol (megis babanod y trosglwyddwyd HIV yn fertigol iddynt a babanod y mae cyffuriau yn effeithio arnynt).

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud**

Gofalu am ferched yn ystod y cyfnod ôl-esgor a'u monitro, gan gynnir cyngor a'r cymorth seiliedig ar dystiolaeth sydd eu hangen ynghylch y baban a hunanofal Bydd hyn yn cynnwys:

- rhoi cyngor a chymorth ynglŷn â bwydo babanod ac addysgu merched am bwysigrwydd maeth i ddatblygiad plant
- rhoi cyngor a chymorth ynglŷn â hylendid, diogelwch, amddiffyn, diogelwch a datblygiad plant
- galluogi merched i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles eu hunain ac iechyd a lles eu babanod a'u teuluoedd
- monitro a chefnogi merched sy'n dioddef iselder ôl-enedigol neu salwch meddwl arall
- rhoi cyngor ar reoli'r bledren
- rhoi cyngor i ferched ar wella
- rhoi cyngor ar ddulliau atal cenhedlu
- helpu merched i ofalu am fabanod sâl/cynamserol neu fabanod ag anabledau.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Dewis cyffuriau a ganiateir, cael gafael arnynt a'u rhoi'n ddiogel yn unol â deddfwriaeth, gan gymhwyso gwybodaeth a sgiliau at y sefyllfa sydd ohoni. Bydd dulliau o roi cyffuriau yn cynnwys y canlynol:

- drwy'r geg
- drwy wythien
- i mewn i gyhyr
- yn lleol
- drwy ei anadlu i mewn.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Cwblhau, storio a chadw cofnodion o ymarfer:

- sy'n gywir, yn ddarllenadwy ac yn barhaus
- sy'n nodi'r rheswm/rhesymau dros unrhyw gamau a gymerwyd
- sy'n cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen at ddibenion y cofnod.

Bydd cofnodion yn cynnwys y canlynol:

- manylion bywgraffyddol merched a babanod
- asesiadau a wnaed, canlyniadau asesiadau a champau a gymerwyd o ganlyniad i hynny
- canlyniadau trafodaethau â merched a chyngor a gynigiwyd
- unrhyw gyffuriau a roddwyd
- cynlluniau gweithredu a sylwadau ar y broses o'u gwerthuso.

**Clwstr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni gofal a'u haddasu er mwyn gwella'r canlyniadau i ferched, babanod a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys:

- ystyried effeithiolrwydd yr uchod a gwneud yr addasiadau sydd eu hangen er mwyn gwella canlyniadau i ferched a'u babanod.

**Clwstr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli Meddyginiaethau**

Cyfrannu at y gwaith o wella iechyd a lles cymdeithasol unigolion a'u cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys:

- cynllunio a chynnig gofal bydwreigiaeth yng nghyd-destun polisïau iechyd y cyhoedd
- cyfrannau arbenigedd ym maes bydwreigiaeth a gwybodaeth am fydwreigiaeth at strategaethau iechyd lleol
- nodi a thargeddu gofal i grwpiau ag anghenion iechyd a mamolaeth penodol a chyfathrebu'n barhaus ag asiantaethau priodol
- cynnwys defnyddwyr a chymunedau lleol yn y gwaith o ddatblygu a gwella gwasanaethau
- llywio ymarfer gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau y dangoswyd ei bod yn atal ac yn lleihau cyfraddau morbidrwydd a marwolaethau mamau a chyfraddau morbidrwydd a marwolaethau amenedigol
- defnyddio amrywiaeth o raglenni effeithiol, priodol a sensitif i wella iechyd rhywiol ac atgenhedlol.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny**

---

<sup>11</sup> Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwreigedd (NMC, 2015). Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

## Maes: Ymarfer proffesiynol a moesegol

Ymarfer yn unol â'r Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd (NMC 2015),<sup>11</sup> o fewn cyfyngiadau cymhwysedd, gwybodaeth a maes ymarfer proffesiynol yr unigolyn ei hun, yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymarfer bydweigiaeth. Bydd hyn yn cynnwys:

- defnyddio safonau ymarfer proffesiynol i hunanasesu perfformiad
- ymgynghori â'r cydweithwyr proffesiynol mwyaf priodol pan fydd gofal yn gofyn am arbenigedd sydd y tu hwnt i gymhwysedd y fydwraig
- ymgynghori â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill pan fydd anghenion y ferch a'r baban y tu allan i gwmpas ymarfer bydweigiaeth
- nodi ymarfer anniogel ac ymateb yn briodol.

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Ymarfer mewn ffordd sy'n parchu, yn hyrwyddo ac yn cefnogi hawliau, buddiannau, dewisiadau, credoau a diwylliannau unigolion. Bydd hyn yn cynnwys:

- cynnig cyngor ar gynllunio teulu sy'n ddiwylliannol sensitif
- sicrhau bod cyfnod esgor merched yn gyson â'i chredoau a'i dewisiadau crefyddol a diwylliannol
- y rolau a'r cydberthnasau gwahanol mewn teuluoedd, ac adlewyrchu credoau, dewisiadau a phrofiadau crefyddol a diwylliannol gwahanol

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

<sup>11</sup> Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd (NMC, 2015). Y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth, Llundain, ([www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk))

Ymarfer yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys:

- ymarfer o fewn y fframwaith bydwreigiaeth cyfreithiol cyfredol
- dangos gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau dynol, cyfle cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth a mynediad at gofnodion cleientiaid.
- dangos gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â pholisi iechyd a pholisi cymdeithasol sy'n berthnasol i ymarfer bydwreigiaeth
- dangos gwybodaeth am faterion moesegol cyfredol a'u heffaith ar ymarfer bydwreigiaeth
- rheoli cymhlethdodau sy'n deillio o ddilemâu moesegol a chyfreithiol.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Diogelu cyfrinachedd gwybodaeth. Bydd hyn yn cynnwys:

- sicrhau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth ysgrifenedig a llafar a gafwyd yn rhinwedd ei swydd
- datgelu gwybodaeth am unigolion a sefydliadau dim ond i'r rhai sydd â hawl i gael y wybodaeth hon ac sydd angen ei chael, a dim ond ar ôl cael prawf adnabod ganddynt a chadarnhad bod ganddynt hawl i weld y wybodaeth

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**



Cydweithio â'r tîm gofal iechyd ehangach ac asiantaethau mewn ffyrdd sy'n gwneud y canlynol:

- gwerthfawrogi eu cyfraniad at iechyd a gofal
  - eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at y gwaith o ofalu am fenywod, babanod a'u teuluoedd
  - cydnabod natur eu gwaith a'r cyd-destun lle y'i gwneir.
- Bydd y tîm gofal iechyd ehangach ac asiantaethau yn cynnwys y rhai sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:
- gofal iechyd
  - gofal cymdeithasol
  - nawdd cymdeithasol, budd-daliadau a thai
  - cyngor, arweiniad a chwnsela
  - amddiffyn plant
  - y gyfraith.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny.**

Rheoli a blaenoriaethau gofynion croes. Bydd hyn yn cynnwys:

- penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau a phwy sydd fwyaf cymwys i ddarparu ymyriadau penodol i ferched, babanod a'u teuluoedd
- tynnu sylw rheolwyr at anawsterau a phroblemau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau.

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny.**

Helpu i greu a chynnal amgylcheddau sy'n hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles merched, babanod ac eraill. Bydd hyn yn cynnwys:

- atal a rheoli haint
- hyrwyddo iechyd, diogelwch a diogeledd yn yr amgylchedd lle mae'r fydwraig yn gweithio, boed hynny yng nghartref menyw, yn y gymuned, mewn clinig neu mewn ysbyty.

**Clwstr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny, Rheoli meddyginiaethau**

Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwerthuso canllawiau a pholisïau a gwneud argymhellion ar gyfer newid er budd merched, babanod a'u teuluoedd. Bydd y gwaith o werthuso polisïau yn cynnwys:

- ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael
- rhoi adborth i reolwyr ar bolisïau ynglŷn â gwasanaethau
- cynrychioli barn ystyriol a phrofiadau'r fydwraig ei hun yng nghydestun polisïau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach er budd merched, babanod a'u teuluoedd.

**Clwstr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu**

### **Maes: Datblygu'r fydwraig unigol ac eraill**

Adolygu, datblygu a gwella gwybodaeth, sgiliau ac addasrwydd i ymarfer y fydwraig ei hun. Bydd hyn yn cynnwys:

- gwneud defnydd effeithiol o'r fframwaith ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd
- cyrraedd safonau'r NMC ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac ymarfer
- myfyrio ar ymarfer y fydwraig ei hun a gwneud y newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i hynny
- mynd i gynadleddau, cyflwyniadau a digwyddiadau dysgu eraill.

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu**

Dangos gwaith effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol a datblygu rhwydweithiau proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys:

- cydweithredu a chyfathrebu'n effeithiol
- rhannu sgiliau
- gwaith pennu safonau ac archwilio ambroffesiynol

**Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny.**

### **Maes: sicrhau gofal o ansawdd drwy werthuso a gwaith ymchwil**

Cymhwyso gwybodaeth berthnasol at ymarfer y fydwraig ei hun mewn ffyrdd strwythuredig y gellir eu gwerthuso. Bydd hyn yn cynnwys:

- arfarnu gwybodaeth a thystiolaeth gwaith ymchwil yn feirniadol
- arfarnu ymarfer y fydwraig ei hun yn feirniadol
- cael adborth gan ferched a'u teuluoedd a'i gymhwyso'n briodol at ymarfer
- lledaenu arfer da a arfarnwyd yn feirniadol.

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu**

Llywio a datblygu ymarfer y fydwraig ei hun ac ymarfer eraill drwy ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael a myfyrio ar ymarfer. Bydd hyn yn cynnwys:

- cael gwybod yn gyson am y dystiolaeth ddiweddaraf
- cymhwyso tystiolaeth at ymarfer
- tynnu sylw eraill at dystiolaeth newydd er mwyn iddynt ei chymhwyso at eu hymarfer eu hunain.

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu**

Rheoli a datblygu gofal gan ddefnyddio'r systemau technoleg gwybodaeth (TG) mwyaf priodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- cofnodi ymarfer mewn fformatau cyson ar systemau TG i'w ddadansoddi yn ehangach
- defnyddio gwaith dadansoddi data o systemau TG a'i gymhwyso at ymarfer
- gwerthuso ymarfer sy'n seiliedig ar waith dadansoddi data.

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu, Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig, Esgor a genedigaeth naturiol, Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny.**

Cyfrannu at y gwaith o archwilio ymarfer er mwyn sicrhau bod merched, babanod a'u teuluoedd yn cael y gofal gorau posibl. Bydd hyn yn cynnwys:

- archwilio ymarfer yr unigolyn ei hun
- cyfrannu at y gwaith o archwilio ymarfer tîm.

### **Clwstwr Sgiliau Hanfodol – Cyfathrebu**

#### **Y Clystyrau Sgiliau Hanfodol**

Daeth Clystyrau Sgiliau Hanfodol i rym ym mis Medi 2008. Mae'n rhaid i bob rhaglen newydd a gymeradwywyd ers 1 Medi 2008 gydymffurfio â hwy. Mae'n rhaid i bob rhaglen a gymeradwywyd cyn 1 Medi 2008 gydymffurfio â hwy erbyn 1 Medi 2009



# Clystyrau Sgiliau Hanfodol ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

## 1. Cyfathrebu

Cyfathrebu		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<p><b>1. Bod yn wasanaethgar a rhannu gwybodaeth sy'n glir, yn gywir ac yn ystyrlon y gall menywod, eu partneriaid a'u teulu ei deall.</b></p>	<p>Mae'n cyfathrebu'n effeithiol fel bod yr ystyr bob amser yn glir</p> <p>Mae'n defnyddio strategaethau er mwyn cyfathrebu'n well a dileu rhwystrau er mwyn cyfathrebu'n effeithiol</p> <p>Mae'n cofnodi gwybodaeth yn gywir yn glir ar sail gwaith arsylwi a chyfathrebu</p> <p>Mae bob amser yn ceisio cadarnhau dealltwriaeth</p> <p>Mae'n ymateb mewn ffordd sy'n cadarnhau'r hyn y mae'r ferch yn ei gyfathrebu</p> <p>Mae'n cyfathrebu anghenion a dymuniadau'r ferch i weithwyr proffesiynol eraill</p> <p>Mae'n cymryd rhan mewn sesiynau grŵp er mwyn rhannu gwybodaeth</p>	<p>Mae'n dangos y gallu i gyfathrebu'n ddiogel ac yn effeithiol â merched, a hynny'n gyson, gan roi arweiniad i staff iau</p> <p>Mae'n cyfleu cynllun gofal clir, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r ferch</p> <p>Mae'n cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif mewn lleoliadau gwahanol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac arddulliau mewn lleoliadau unigol a lleoliadau grŵp</p> <p>Mae'n rhoi adroddiadau ysgrifenedig cywir a chynhwysfawr sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael</p> <p>Mae'n gyfarwydd â chael gafael ar wybodaeth heblaw am wybodaeth a ysgrifennwyd â llaw, megis negeseuon testun, a chofnodi'r wybodaeth honno</p> <p>Mae'n cymryd camau i leihau a herio rhwystrau i gyfathrebu effeithiol a dealltwriaeth</p> <p>Mae'n rhagweithiol ac yn greadigol wrth wella prosesau cyfathrebu a meithrin dealltwriaeth</p>

<b>Cyfathrebu</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		<p>Lle y bo'n briodol, mae'n defnyddio sgiliau gwranddo'n weithredol, cwestiynu, aralleirio a myfyrio er mwyn helpu i gyfathrebu'n effeithiol</p> <p>Mae'n defnyddio sgiliau cyfathrebu priodol a pherthnasol i ymdrin ag amgylchiadau anodd a heriol mewn sefyllfaoedd unigol a sefyllfaoedd grŵp.</p>



<p><b>2. Diogelu gwybodaeth sy'n ymwneud â hwy eu hunain a'u gofal a'i thrin yn gyfrinachol</b></p>	<p>Mae'n cymhwyso egwyddorion cyfrinachedd fel y'u nodir yng Nghod yr NMC</p> <p>Mae'n diogelu gwybodaeth a'i thrin yn gyfrinachol ac eithrio pan fydd angen rhannu gwybodaeth at ddibenion diogelu a/neu ddiogelu'r cyhoedd.</p> <p>Mae'n cymhwyso egwyddorion diogelu data</p>	<p>Mae'n ymddwyn yn broffesiynol ac yn briodol mewn sefyllfaoedd lle y gall fod terfynau i gyfrinachedd, e.e. amddiffyn plant, diogelu unigolion rhag niwed</p> <p>Mae'n deall pwysigrwydd gwybodaeth a phwy sydd angen cael gwybod a phwy nad oes angen cael gwybod</p> <p>Mae'n gwahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n berthnasol i waith cynllunio gofal a gwybodaeth nad yw'n berthnasol</p> <p>Mae'n ymddwyn yn briodol wrth rannu gwybodaeth er mwyn galluogi a gwella gofal (tîm amlddisgyblaeth, ar draws ffiniau asiantaethau)</p>
---	--	---

<b>Cyfathrebu</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		<p>Mae'n gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data, e.e. gweld cofnodion a'u storio</p> <p>Mae'n gweithredu o fewn y gyfraith wrth ddatgelu gwybodaeth heb ganiatâd</p>
<p><b>3. Galluogi merched i wneud dewisiadau ynglŷn â gofal drwy hysbysu merched am y dewisiadau sydd ar gael iddynt a darparu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am fanteision a risgiau opsiynau er mwyn i ferched allu gwneud penderfyniad cwbl hyddysg.</b></p>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o rannu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth â merched er mwyn iddynt wneud penderfyniad hyddysg am eu gofal</p>	<p>Mae'n parchu rôl merched fel partneriaid yn eu gofal a'r cyfraniadau y gallant eu gwneud ato</p> <p>Mae'n defnyddio strategaethau priodol er mwyn annog a hyrwyddo dewis i bob merch</p> <p>Mae'n darparu gwybodaeth gywir, geirwir a chytbwys a gyflwynir mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn hawdd ei deall</p> <p>Mae'n parchu annibyniaeth merched pan fyddant yn gwneud penderfyniad, hyd yn oed pan all dewis penodol arwain at niwed iddynt hwy eu hunain neu eu plentyn yn y groth, oni fydd llys barn yn gorchymyn fel arall</p> <p>Mae'n trafod gwybodaeth leol/cenedlaethol â merched er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau, gan gynnwys asiantaethau a gwefannau gwirfoddol lleol a chenedlaethol</p>

<b>Cyfathrebu</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
<b>4. Sicrhau y ceisir caniatâd y ferch cyn rhoi gofal ac y caiff hawliau merched eu parchu.</b>	<p>Mae'n cymhwyso egwyddorion cydsyniad yn unol â'r <i>Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd</i> (NMC, 2015)</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y broses o sicrhau bod y ferch yn deall ystyr cydsyniad</p>	<p>Mae'n gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol wrth geisio caniatâd</p> <p>Mae'n ceisio caniatâd cyn rhannu gwybodaeth gyfrinachol y tu allan i'r tîm gofal proffesiynol (yn ddarostyngedig i weithdrefnau diogel/amddiffyn y cytunwyd arnynt)</p> <p>Mae'n defnyddio strategaethau priodol er mwyn galluogi merched i ddeall triniaethau ac ymyriadau er mwyn rhoi cydsyniad deallus</p> <p>Mae'n dangos parch at annibyniaeth cleientiaid a hawliau merched i wrthod rhoi caniatâd mewn perthynas â gofal a thriniaeth o fewn fframweithiau cyfreithiol.</p>
<b>5. Trin merched ag urddas a'u parchu fel unigolion.</b>	<p>Mae'n mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ferched o ddarparu gofal</p> <p>Mae'n dangos parch at amrywiaeth a dewisiadau personol</p> <p>Mae'n cymhwyso'r cysyniad o urddas</p>	<p>Mae'n ymddwyn yn broffesiynol er mwyn sicrhau na fydd barn, rhagfarnau, gwerthoedd, agweddau na chredoau personol yn amharu ar y gofal a ddarperir</p> <p>Mae'n rhagweithiol wrth gynnal urddas</p> <p>Mae'n herio sefyllfaoedd/unigolion eraill pan fo urddas merched yn cael ei beryglu, o bosibl</p>

Cyfathrebu		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
	<p>Mae'n darparu gofal gydag urddas gan ddefnyddio'r amgylchedd, hi ei hun, sgiliau ac agwedd</p> <p>Mae'n nodi ffactorau sy'n cynnal urddas merched</p> <p>Mae'n ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch at eraill ac sy'n hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau</p>	<p>Mae'n rhannu gwybodaeth yn hyderus â merched sydd ag anableddau corfforol, gwybyddol neu synhwyrdd a'r rhai nad ydynt yn siarad nac yn darllen Saesneg</p>
<p><b>6. Gweithio mewn partneriaeth â merched mewn ffordd sy'n sensitif i amrywiaeth nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn eraill, yn aflonyddu arnynt nac yn camfanteisio arnynt.</b></p>	<p>Mae'n gweithio mewn partneriaeth â merched mewn ffordd sy'n sensitif i oedran, diwylliant, crefydd, credoau ysbrydol, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol</p> <p>Mae'n parchu hawliau pobl</p> <p>Mae'n mabwysiadu dull egwyddorol o ddarparu gofal sy'n seiliedig ar <i>Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwagedd</i> (NMC, 2005)</p>	<p>Mae'n amddiffyn hawliau merched ac yn codi ei llais pan fydd y rhain mewn perygl o gael eu tanseilio</p> <p>Mae'n ystyried fframweithiau cyfreithiol y DU a moeseg broffesiynol wrth gynllunio gofal</p> <p>Mae'n rhagweithiol wrth hyrwyddo amgylcheddau gofal sy'n sensitif i amrywiaeth lle na cheir achosion o gamfanteisio, gwahaniaethu nac aflonyddu</p> <p>Mae'n rheoli sefyllfaoedd heriol yn effeithiol</p>

<b>Cyfathrebu</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
<b>7. Darparu gofal mewn ffordd gynnes, sensitif a thosturiol</b>	<p>Mae'n talu sylw ac yn ymddwyn yn garedig a gydag urddas</p> <p>Mae'n cydnabod priodoldeb tawelwch mewn sefyllfaoedd penodol</p> <p>Mae'n gallu dechrau sgwrs</p> <p>Mae'n ystyried ymatebion y ferch</p> <p>Mae'n siarad mewn ffordd y mae'r ferch yn ystyried ei bod yn gynnes, yn sensitif, yn garedig ac yn dosturiol</p> <p>Mae'n cynnal cydberthynas gefnogol â merched a'u teuluoedd</p>	<p>Mae'n rhagweld sut y gallai merch deimlo mewn sefyllfa benodol ac yn ymateb yn garedig ac ag empathi er mwyn rhoi cysur corfforol ac emosiynol iddi</p> <p>Mae'n cyffwrdd â merched mewn ffordd briodol</p> <p>Mae'n gwrandao ar arwyddion llafar ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar, yn cadw golwg amdanynt ac yn ymateb iddynt</p> <p>Mae'r darparu gofal sy'n cydnabod angen ac yn rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol</p> <p>Mae'n deall ei gwerthoedd ei hun a sut y gallant effeithio ar ryngweithio â merched</p> <p>Nid yw'n caniatáu i deimladau personol tuag at gleient nac eraill danseilio'r gofal a ddarperir</p> <p>Mae'n cydnabod ei hanesmwythder/gofid emosiynol ei hun ac anesmwythder/gofid emosiynol pobl eraill ac yn ymateb iddo</p> <p>Drwy fyfyrion a gwerthuso mae'n dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol</p>

Cyfathrebu		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<p><b>8. Bod yn hyderus wrth gyflawni ei rôl ei hun o fewn tîm amlddisgyblaeth/aml asiantaeth</b></p>	<p>Mae'r gweithio o fewn <i>Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd</i> (NMC, 2015)</p> <p>Mae'n gweithio fel aelod gweithredol o dîm</p> <p>Mae'n cefnogi ac yn cynorthwyo eraill yn briodol</p> <p>Mae'r gwerthfawrogi rolau a chyfrifoldebau unigolion eraill o fewn y tîm ac yn rhyngweithio'n briodol</p> <p>Mae'n cyfathrebu â chydweithwyr ar lafar (wyneb yn wyneb a dros y ffôn) ac yn ysgrifenedig ac yn electronig ac yn cadarnhau bod yr ohebiaeth wedi'i deall yn llawn</p> <p>Mae'n myfyrio ar ei hymarfer ei hun ac yn trafod materion ag aelodau eraill</p>	<p>Mae'n gweithio o fewn rheolau a safonau'r NMC ar gyfer Bydwragedd</p> <p>Mae'n ymgynghori ac yn ystyried atebion a syniadau yn briodol ag eraill er mwyn gwella gofal</p> <p>Mae'n herio ei hymarfer ei hun ac ymarfer unigolion eraill o fewn y tîm ambroffesiynol</p> <p>Mae'n gweithredu fel model rôl effeithiol wrth wneud penderfyniadau, cymryd camau a chefnogi aelodau iau o staff</p> <p>Mae'n gweithio'n rhyngbroffesiynol fel ffordd o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ferched</p>

# Clystyrau Sgiliau Hanfodol ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

## 2. Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig

Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<p><b>1. Bod yn hyderus wrth rannu gwybodaeth am brofion sgrinio cynenedigol cyffredin</b></p>	<p>Mae'n ymwybodol o'r prif raglenni sgrinio cynenedigol a reolir gan y GIG a gynigir i ferched beichiog</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o rannu gwybodaeth â merched am brofion sgrinio cynenedigol cyffredin</p> <p>Gall barchu penderfyniad merched i wrthod gwasanaethau neu driniaeth</p>	<p>Mae'n ymddwyn yn broffesiynol er mwyn sicrhau nad yw barn, rhagfarnau, gwerthoedd, agweddau na chredoau personol yn amharu ar y gwaith o ddarparu gofal</p> <p>Mae'n hwyluso dewisiadau hyddysg ynglŷn â phrofion sgrinio cynenedigol gan sicrhau bod merched yn deall diben pob prawf yn llawn cyn iddo gael ei gynnal</p> <p>Mae'n dehongli data/canlyniadau yn fanwl gywir ac yn rhannu'r wybodaeth hon yn sensitif â merched, gan gynnwys y gallu i drafod unrhyw gamau gweithredu/canlyniadau pellach fel y bo angen</p> <p>Mae'n rhannu gwybodaeth gyffredinol e.e. yr adegau gorau ar gyfer cynnal profion, fel y bo'n briodol gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli amlgyfrwng, megis tecstio</p> <p>Mae'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol o dan amgylchiadau heriol, megis profedigaeth flaenorol, neu ganlyniad sgrinio sy'n dangos yr effeithiwyd y beichiogrwydd neu ei fod yn wynebu risg uchel</p> <p>Mae'n trafod gwybodaeth leol/cenedlaethol â merched er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau, gan gynnwys asiantaethau a gwefannau gwirfoddol lleol a chenedlaethol</p>



<b>Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		Mae'n gallu chwilio am wybodaeth am brofion sgrinio cynenedigol llai cyffredin/arbenigol
<b>2. Cwblhau ymgynghoriad cychwynnol yn fanwl gywir gan sicrhau bod gofal yn canolbwyntio ar ferched.</b>	<p>Mae'n sicrhau y ceir caniatâd cyn dechrau rhoi unrhyw ofal</p> <p>Mae'n helpu i nodi dewisiadau er mwyn sicrhau dull o ddarparu gofal sydd wedi'i deilwra cymaint â phosibl i'r unigolyn</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o esbonio nod yr ymgynghoriad cychwynnol sy'n berthnasol i feichiogrwydd i ferched</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o asesu lles y fam a'r ffetws, sy'n berthnasol i'r cam o'r beichiogrwydd</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o esbonio canfyddiadau mewn ffordd sensitif ac yn annog merched i ofyn cwestiynau</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o esbonio ystyriaethau ffordd o fyw o ran deiet, ysmegu a chyffuriau i ferched</p>	<p>Mae'n dangos y gallu i wneud y canlynol yn gyson:</p> <p>rhannu gwybodaeth â merched asesu lles</p> <p>mamau a ffetysau sy'n berthnasol i feichiogrwydd, ac yn gweithredu ar yr angen i atgyfeirio merched at unigolion priodol pan fo angen,</p> <p>mewn partneriaeth â merched, cynllunio llwybr gofal er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigol eu diwallu</p> <p>Ystyried yn effeithiol y ffactorau cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol sy'n llywio llwybr gofal cynenedigol personol i ferched sy'n sensitif i amrywiaeth</p> <p>Mae'n gymwys wrth adnabod merched a fyddai'n cael budd o wasanaethau mwy arbenigol a rhoi cyngor iddynt</p> <p>Mae'n grymuso merched i adnabod datblygiad beichiogrwydd arferol a gwybod pryd i geisio cyngor</p> <p>Mae'n fedrus wrth roi cyfle i ferched ddatgelu eu bod yn dioddef cam-drin domestig a gall ymateb yn briodol</p>

<b>Ymgynghoriad cychwynnol rhwng y ferch a'r fydwraig</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		Mae'n gymwys wrth rannu gwybodaeth am y gwasanaethau a'r opsiynau sydd ar gael o ran gofal beichiogrwydd, ystyriaethau ffordd o fyw, gan gynnwys gwybodaeth ddeietegol a phrofion sgrinio
<b>3. Cydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol eraill</b>	Mae'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n cyfrannu at ofal cynenedigol	<p>Mae'n gymwys wrth atgyfeirio merched a fyddai'n cael budd o wasanaethau mwy arbenigol, megis uned cymorth camddefnyddio sylweddau leol</p> <p>Gall gydweithio'n effeithiol â'r tîm gofal iechyd ehangach ac asiantaethau yn ôl yr angen</p>
<b>4. Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf pan fydd merched yn ceisio cyngor a/neu wybodaeth am fod yn feichiog</b>	Mae'n dangos sut a phryd y gellir cael gafael ar fydwragedd fel y pwynt cyswllt cyntaf	<p>Pan fyddant ar gael, mae'n mynd ati i sicrhau ei bod ar gael i ferched mewn amgylcheddau heblaw am leoliadau traddodiadol y GIG, megis siopau, archfarchnadoedd, canolfannau hamdden</p> <p>Mae'n hyderus wrth weithio mewn amrywiaeth o fodelau darparu gwasanaethau sy'n annog merched i gael gafael ar ofal yn gynnar</p>

# Clystyrau Sgiliau Hanfodol ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

## 3. Esgor a genedigaeth naturiol

Esgor a genedigaeth naturiol		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<p><b>1. Gweithio mewn partneriaeth â merched er mwyn hwyluso amgylchedd geni sy'n diwallu eu hanghenion</b></p>	<p>Mae'n sicrhau dull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ferched</p> <p>Mae'n sensitif i ffactorau diwylliannol a chymdeithasol wrth ddarparu gofal i ferched</p> <p>Mae'n parchu hawliau merched</p> <p>Mae'n sicrhau preifatrwydd ac yn darparu gofal ag urddas gan wneud defnydd priodol o'r amgylchedd</p> <p>Mae'r cyfranogi mewn 'bod gyda merched' yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth er mwyn darparu gofal diogel a sensitif</p> <p>Mae'n ymgorffori cynlluniau geni neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n nodi dymuniadau merched, mewn unrhyw ofal a ddarperir</p> <p>Mae'n parchu tawelwch</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o newid yr amgylchedd ffisegol er mwyn diwallu anghenion merched, megis goleuadau, dodrefn, tymheredd</p>	<p>Mae'n helpu i sicrhau iechyd, diogelwch a lles merched mewn amrywiaeth o leoliadau geni heblaw am amgylchedd yr ysbyty aciwt</p> <p>Mae'n sicrhau bod cyfnod esgor a geni merched yn sensitif i amrywiaeth, gan ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol</p> <p>Mae'n rhagweld anghenion merched ac yn eu diwallu</p> <p>Mae'n ysbrydoli hyder, yn seilio penderfyniadau ar dystiolaeth ac yn defnyddio profiad i lywio prosesau gwneud penderfyniadau</p> <p>Mae'n cydnabod y rolau a'r cydberthnasau mewn teuluoedd, sy'n dibynnu ar gredoau crefyddol a diwylliannol, dewisiadau a phrofiadau</p> <p>Mae'n ymarfer yn unol â deddfwriaeth berthnasol</p>

<b>Esgor a genedigaeth naturiol</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
<p><b>2. Bod yn ystyriol o anghenion merched o ran cysur cyn, yn ystod ac ar ôl yr enedigaeth.</b></p>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o sicrhau y caiff anghenion merched o ran cysur eu diwallu, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gofalu am y bledren</li> <li>• hydradu priodol</li> <li>• maeth a geir</li> <li>• gofynion hylendid</li> <li>• atal haint</li> <li>• asesu cyfanrwydd y croen</li> </ul> <p>Mae'n gweithio gyda merched i bennu eu strategaethau ymdopi er mwyn cefnogi eu dewisiadau o ran rheoli poen, megis gwneud i ferched symud, ystumiau gwahanol, defnyddio dŵr, tawelwch</p>	<p>Mae'n gwrando ar arwyddion llafar ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar, yn cadw golwg amdanynt ac yn ymateb iddynt</p> <p>Mae'n defnyddio gwybodaeth fanwl am ffisioleg esgor a geni</p> <p>Mae'n defnyddio sgiliau arsylwi a gwrando gweithredol er mwyn dadansoddi effeithiolrwydd gofal sy'n cael ei ddarparu</p>
<p><b>3. Nodi pryd mae'r cyfnod esgor yn dechrau.</b></p>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y broses o ddefnyddio gweithgarwch arsylwi, cymryd hanes ac asesu clinigol er mwyn nodi pryd mae'r cyfnod esgor yn dechrau</p>	<p>Mae'n nodi pryd mae'r cyfnod esgor yn dechrau, yn trafod y canfyddiadau yn fanwl ac yn rhannu'r wybodaeth hon â merched, gan gynnwys y gallu i drafod unrhyw gamau gweithredu/canlyniadau pellach yn ôl yr angen</p>

<b>Esgor a genedigaeth naturiol</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
<b>4. Nodi lles merched a'u babanod yn y groth</b>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o fonitro arwyddion hanfodol y fam, megis curiad calon a phwysedd gwaed y fam</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o fonitro lles y ffetws sy'n cynnwys asesu cyfaint a lliw hylif amniotig ('liquor') a chlustfeinio'n ysbeidiol ar galon y ffetws gan ddefnyddio stethosgop Pinard</p>	<p>Mae'n asesu lles y fam, yn dehongli'r canfyddiadau yn gywir ac yn rhannu'r wybodaeth hon â merched, a gall drafod unrhyw gamau gweithredu /canlyniadau pellach yn ôl yr angen</p> <p>Mae'n nodi ac yn rheoli risg yn ddiogel</p> <p>Mae'n atgyfeirio merched a fyddai'n cael budd o sgiliau a gwybodaeth unigolion eraill</p> <p>Mae'n asesu mesurau i reoli, lleihau neu ddileu risg a allai fod yn niweidiol i ferched, iddi hi ei hun ac i unigolion eraill ac yn eu rhoi ar waith</p>
<b>5. Mesur, asesu a hwyluso hynt proses esgor naturiol</b>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o asesu hynt y broses esgor gan ddefnyddio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• arsylwi, megis ymddygiad</li> <li>• archwilio'r abdomen</li> <li>• archwilio'r fagina lle y bo'n briodol</li> </ul> <p>Mae'n cymryd rhan yn y broses o hysbysu merched yn sensitif am hynt y broses esgor, gan roi adborth mewn ffordd gadarnhaol</p>	<p>Mae'n nodi cam cudd a cham gweithredol y broses esgor ac yn eu rheoli'n briodol</p> <p>Mae'n asesu hynt y broses esgor yn gywir ac yn rhannu'r wybodaeth hon â merched, a gall drafod unrhyw gamau gweithredol/canlyniadau pellach yn ôl yr angen</p>

<b>Esgor a genedigaeth naturiol</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
	<p>Mae'n cyfrannu at y gwaith o helpu merched i ddefnyddio amrywiaeth o gymhorthion geni, megis peli geni</p>	<p>Gall drafod hynt y broses esgor â merched mewn perthynas â'u cynllun geni/dymuniadau ysgrifenedig a'u haddasu mewn partneriaeth â merched, yn ôl yr angen</p> <p>Mae'n arfarnu ac yn cyfiawnhau'r defnydd o unrhyw ymyriad, megis torri pilennau yn artiffisial, monitro'r ffetws yn electronig yn barhaus, cathetreiddio wrinol, yn feirniadol, er mwyn hwyluso genedigaeth naturiol drwy'r fagina</p> <p>Mae'n ceisio cydsyniad deallus cyn rhoi unrhyw driniaeth</p> <p>Mae'n adnabod unrhyw wyro oddi wrth hynt arferol y broses esgor neu les y ferch neu'r ffetws</p> <p>Mae'n dechrau'r broses o atgyfeirio merched a fyddai'n cael budd o sgiliau a gwybodaeth unigolion eraill yn amserol</p> <p>Fel rhan o'r tîm amlddisgyblaeth mae'n parhau i ddarparu gofal i ferched sy'n dioddef cymhlethdodau</p>

<b>Esgor a genedigaeth naturiol</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
<b>6. Helpu merched a'u partneriaid yn ystod genedigaeth eu babanod.</b>	<p>Mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnig dewisiadau sy'n ymwneud â'r cam hwn ac yn hysbysu merched yn sensitif am hynt yr enedigaeth</p> <p>Mae'n adnabod cam cudd a cham gweithredol y broses eni</p> <p>Mae'n helpu i baratoi cyfarpar sydd ei angen ar gyfer yr enedigaeth</p> <p>Mae'n helpu i fonitro lles y fam a'r ffetws</p>	<p>Mae'n asesu hynt y broses esgor yn gywir ac yn rhannu'r wybodaeth hon â merched, a gall dafod unrhyw gamau gweithredu/canlyniadau pellach yn ôl yr angen</p> <p>Mae'r paratoi'r amgylchedd ar gyfer yr enedigaeth</p> <p>Mae'n gofalu am ferched yn sensitif ac mae'n ystyriol o'r 'adeg geni', gan greu amgylchedd sy'n ymateb i anghenion y ferch</p> <p>Mae'n cynorthwyo merched yn ddiogel yn ystod genedigaeth eu baban</p> <p>Mae'n rhoi mesurau brys ar waith os oes angen, megis episiotomi</p> <p>Mae'n dechrau'r broses o atgyfeirio merched a fyddai'n cael budd o sgiliau a gwybodaeth unigolion eraill yn amserol</p> <p>Fel rhan o'r tîm amlddisgyblaeth mae'n parhau i ddarparu gofal i ferched sy'n dioddef cymhlethdodau</p>



<b>Esgor a genedigaeth naturiol</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		Asesu a monitro cyflwr y ferch drwy gydol trydydd cam y broses esgor gan ei helpu i esgor ar y brych a'r pilennau yn ddiogel gan ddefnyddio dulliau rheoli ffisiolegol neu weithredol
<b>7. Helpu'r fam a'r baban i aros gyda'i gilydd</b>	<p>Mae'n helpu i asesu lles y baban</p> <p>Mae'n helpu'r fam i fwydo'r baban pan fydd y baban yn barod, gan fonitro agosrwydd y fam at y baban</p> <p>Mae'n gohirio gwahanu'r fam a'r baban yn ddiangen, gan osgoi gweithdrefnau rheolaidd cynnar megis pwysu</p>	<p>Mae'n asesu iechyd a lles y baban newydd-anedig yn gywir</p> <p>Mae'n rhoi mesurau brys ar waith os oes angen</p> <p>Mewn ffordd ddiwylliannol sensitif, mae'n creu amgylchedd sy'n diogelu proses ymlynu'r fam wrth y baban, megis cyffwrdd â'r baban cyn lleied â phosibl, nodi rhyw'r baban, meithrin cyswllt llygad rhwng y fam a'r baban, a chyswllt croen â chroen</p>
<b>8. Nodi gweithdrefnau brys priodol a'u rheoli'n ddiogel</b>	<p>Mae'n cymryd rhan mewn gweithdrefnau 'driliau a sgiliau' sy'n gysylltiedig â dadebru oedolion</p> <p>Mae'n hyderus wrth roi gweithdrefnau galwadau brys sylfaenol sy'n berthnasol i bolisi lleol ar waith</p>	<p>Mae'n rhoi mesurau brys ar waith mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd</p> <p>Mae'n parhau â mesurau brys nes i gymorth gyrraedd</p>

Esgor a genedigaeth naturiol		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<b>9. Mae'n cydweithio ar ymarferwyr eraill.</b>	Mae'n gweithredu yn unol â'r <i>Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd</i> (10& 2015 (	<p>Mae'n eirioli dros ferched</p> <p>Mae'n cyd-drafod ag eraill mewn perthynas â sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau croes</p> <p>Mae'n cyfleu cyfyngiadau a ffiniau proffesiynol</p> <p>Mae ganddi'r hyder i ffonio gweithiwr proffesiynol priodol heb ystyried hierarchaeth, pan fydd gofal yn gofyn am arbenigedd y tu hwnt i ymarfer presennol y fydwraig, neu pan fydd anghenion y ferch neu'r baban y tu allan i gwmpas ymarfer bydweigiaeth</p> <p>Mae'n ymarfer yn unol â rheolau a safonau'r NMC ar gyfer Bydwragedd</p>
<b>10 Cadw cofnodion cywir.</b>	Mae'n helpu i gadw cofnodion cywir a darllenadwy sy'n cynnwys cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal, ymyriadau a chanfyddiadau	Mae'n nodi'r rheswm/rhesymau dros unrhyw gamau a gymerwyd neu unrhyw ymyriadau a gyflawnwyd

## Clystyrau Sgiliau Hanfodol ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

### 4. Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny

Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<p><b>1. Deall a rhannu gwybodaeth glir, gywir ac ystyrlon y gall merched, eu partneriaid a'u teulu ei deall.</b></p>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y broses o gyfleu pwysigrwydd bwydo ar y fron, a chanlyniadau peidio â bwydo ar y fron, o ran canlyniadau iechyd (BFI), yn sensitif</p> <p>Mae'n arsylwi amrywiaeth o fforymau lle y caiff gwybodaeth ei rhannu mewn perthynas â manteision ac anfanteision dulliau gwahanol o fwydo babanod</p>	<p>Mae'n gwrandao ar arwyddion llafar ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar, yn cadw golwg amdanynt ac yn ymateb iddynt</p> <p>Mae'n defnyddio sgiliau bod yn sylwgar, gofyn cwestiynau penagored ac aralleirio er mwyn helpu i rannu gwybodaeth â merched</p> <p>Gall arwain amrywiaeth o fforymau lle y caiff gwybodaeth ei rhannu â merched am fanteision ac anfanteision dulliau gwahanol o fwydo babanod, heb ystyried bod bwydo ar y fron a bwydo artiffisial yn ddewisiadau 'cyfartal'</p> <p>Mae'n deall pwysigrwydd bwydo babanod ar y fron yn unig a chanlyniadau cynnig llaeth artiffisial i fabanod sy'n cael eu bwydo ar y fron</p> <p>Mae'n arfarnu natur a chryfder ymyriadau i hyrwyddo a chynorthwyo bwydo ar y fron yn feirniadol</p> <p>Mae'n deall natur tystiolaeth a sut i werthuso cryfder tystiolaeth gwaith ymchwil a ddefnyddir i ategu gwybodaeth</p>

<b>Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		Cadw cofnodion cywir o'r ferch a'i baban sy'n ymwneud â bwydo ar y fron, gan gynnwys cynlluniau gofal ac unrhyw broblemau a wynebir neu unrhyw atgyfeiriadau a wneir
<b>2. Parchu ffactorau cymdeithasol a diwylliannol a all ddylanwadu ar y penderfyniad i fwydo ar y fron.</b>	<p>Mae'n ymwybodol o'i barn a'i theimladau ei hun am fwydo babanod er mwyn helpu i sicrhau bod prosesau rhannu gwybodaeth yn foesebol ac yn anfarnol</p> <p>Mae'n sensitif i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth wrth rannu gwybodaeth â merched</p> <p>Mae'n parchu hawliau merched</p>	<p>Mae'n dangos gwybodaeth ymarferol o'r ardal ddemograffig leol ac yn ystyried strategaethau i gefnogi mentrau bwydo ar y fron yn yr ardal</p> <p>Mae'n ystyried agweddau at fwydo ar y fron yn fedrus</p> <p>Mae'n ystyried traddodiadau diwylliannol gwahanol, credoau a moeseg broffesiynol wrth gyfathrebu â merched</p>
<b>3. Helpu merched i fwydo ar y fron.</b>	<p>Mae'n barod i ddysgu gan ferched</p> <p>Mae'n helpu i sicrhau y caiff anghenion merched eu diwallu wrth ddatblygu llwybr gofal clir</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y broses o esbonio i ferched bwysigrwydd bwydo a arweinir gan y baban mewn perthynas â dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny (BFI)</p>	<p>Mae cymhwyso gwybodaeth fanwl am ffisioleg llaetha at sefyllfaoedd ymarferol (BFI)</p> <p>Mae'n adnabod arfer da o ran gosod y baban ar y fron â'i gysylltu â hi er mwyn sicrhau ei bod yn sugno a bod llaeth yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol</p> <p>Mae'n defnyddio sgiliau arsylwi, gwrando gweithredol ac arfarnu beirniadol parhaus er mwyn dadansoddi effeithiolrwydd arferion bwydo ar y fron</p>

## Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny

Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
	<p>Mae'n defnyddio sgiliau arsylwi, gwrando gweithredol ac arfarnu beirniadol parhaus er mwyn dadansoddi effeithiolrwydd arferion bwydo ar y fron</p> <p>Gall helpu i ddysgu'r sgiliau angenrheidiol i famau er mwyn eu galluogi i osod eu baban ar y fron â'i gysylltu â hi yn effeithiol er mwyn ei fwydo (BFI)</p> <p>Mae'n esbonio i ferched pa mor bwysig ydyw bod eu baban yn aros yn yr un ystafell â hwy a'u bod yn dal eu baban yn ystod y cyfnod ôl-enedigol fel ffordd o hwyluso'r broses o'i fwydo ar y fron (BFI)</p> <p>Mae'n adnabod y cymhlethdodau cyffredin sy'n gysylltiedig â bwydo ar y fron a sut maent yn codi ac yn dangos sut y gellir helpu merched i'w hosgoi (BFI)</p> <p>Mae'r cymryd rhan yn y gwaith o ddysgu merched sut i dynnu llaeth eu bronau â llaw a sut i'w storio, ei rewi a'i gynhesu gan ystyried agweddau ar waith rheoli haint (BFI)</p>	<p>Mae'n hyderus wrth ystyried gyda merched yr effaith y gallai arferion yr ystafell eni, megis effaith dulliau gwahanol o leddfu poen a phwysigrwydd cyswllt croen â chroen, ei chael ar les eu baban ac arnynt hwy eu hunain, ac ar sefydlu'r arfer o fwydo ar y fron yn benodol (BFI)</p> <p>Mae'n defnyddio sgiliau priodol er mwyn helpu merched i fwydo eu baban ar y fron yn llwyddiannus am chwe mis cyntaf ei fywyd (BFI)</p> <p>Mae'n grymuso i adnabod arfer da o ran gosod y baban ar y fron â'i gysylltu â hi er mwyn sicrhau ei bod yn sugno a bod llaeth yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol (BFI)</p> <p>Mae'n ystyried gyda merched y sail dystiolaeth sy'n ategu gwybodaeth, a allai gael effaith ar fwydo ar y fron megis rhannu gwely a defnyddio dymis (BFI)</p> <p>Mae'n fedrus wrth roi cyngor i ferched dros y ffôn pan fyddant yn cysylltu â hi er mwyn cael cyngor ar faterion sy'n ymwneud â bwydo ar y fron</p>

Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny		
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr
<b>4. Adnabod twf a datblygiad priodol o ran babanod, gan gynnwys lle mae angen atgyfeirio merched er mwyn iddynt gael cyngor pellach/cymryd camau.</b>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o asesu twf a datblygiad priodol y baban newydd-anedig.</p> <p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o gynnal archwiliadau corfforol yn ôl yr angen, gyda chaniatâd y rhiant</p> <p>Mae'n hysbysu merched am ganfyddiadau unrhyw asesiad/archwiliad a gynhaliwyd, mewn ffordd a ddeallir gan y merched</p>	<p>Mae'n gweithredu ar yr angen i atgyfeirio merch pan geir achosion o wyro oddi wrth dwf priodol babanod</p> <p>Mae'n dangos sgiliau i rymuso merched i adnabod twf a datblygiad priodol babanod a cheisio cyngor pan fydd ganddynt bryderon</p>
<b>5. Cydweithio ag ymarferwyr eraill ac asiantaethau allanol.</b>	<p>Mae'n gweithio o fewn <i>Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd</i> (NMC, 2015)</p> <p>Mae'n gweithio fel aelod o dîm</p> <p>Mae'n gwerthfawrogi rolau a chyfrifoldebau unigolion eraill o ran helpu merched i fwydo ar y fron</p>	<p>Mae'n ymarfer o fewn cyfyngiadau ei chymhwysedd, ei gwybodaeth a'i maes ymarfer proffesiynol ei hun, yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymarfer bydwreigiaeth</p> <p>Mae'n cydweithio'n hyderus ac mewn partneriaeth â merched ac unigolion eraill er mwyn sicrhau y caiff anghenion merched eu diwallu</p>

<b>Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
	<p>Mae'n rhannu gwybodaeth am asiantaethau a rhwydweithiau cenedlaethol a lleol sydd ar gael er mwyn helpu merched i barhau i fwydo ar y fron, er enghraifft Ymgynghorwyr Llaetha, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant a La Leche League</p>	<p>Mae'n deall pwysigrwydd cymorth cymunedol ar gyfer bwydo ar y fron ac yn atgyfeirio merched at rwydweithiau cymorth cymunedol, er mwyn helpu merched i fwydo ar y fron ac fel adnodd ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol (BFI)</p> <p>Mae'n gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ac asiantaethau allanol er mwyn hyrwyddo bwydo ar y fron a chefnogi merched sydd wedi dewis bwydo ar y fron</p> <p>Gall drafod pwysigrwydd bwydo baban ar y fron yn unig am chwe mis a chyflwyno bwydydd ategol yn amserol a pharhau i fwydo ar y fron yn ystod y cyfnod diddyfnu, i mewn i ail flwyddyn bywyd ac ar ôl hynny, gyda merched</p>
<p><b>6. Helpu merched i fwydo ar y fron o dan amgylchiadau heriol.</b></p>	<p>Mae'n ymwybodol o'r nifer gyfyngedig o sefyllfaoedd lle na ellir bwydo baban ar y fron yn unig ac yn cymryd rhan yn y gwaith o helpu merched i fwydo eu baban ar y fron yn rhannol neu ei fwydo'n artiffisial (BFI)</p> <p>Mae'n sensitif i anghenion merched a'u partneriaid</p>	<p>Mae'n cynnwys help priodol, megis ymgynghorydd llaetha, pan fo angen sgiliau arbenigol, er mwyn helpu merched i fwydo eu babanod ar y fron yn llwyddiannus</p> <p>Mae'n gweithredu ar yr angen i atgyfeirio merched at weithwyr iechyd proffesiynol priodol pan welir gwyro oddi wrth batrymau bwydo a thwf babanod priodol</p>

<b>Dechrau bwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny</b>		
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>
		<p>Mae'n helpu merched sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu babanod (pan gânt eu derbyn i uned gofal arbennig i fabanod (SCBU), merched sy'n cael gofal mewn uned ddibyniaeth uchel mewn amgylchedd ar wahân) i ddechrau llaetha a bwydo eu babanod yn y ffordd orau bosibl a pharhau i wneud hynny (BFI)</p> <p>Mae'n rhoi llaeth a dynnwyd i faban, gan ddefnyddio cwpan a/neu chwistrell fel y bo'n briodol</p> <p>Mae'n dysgu merched sut i dynnu llaeth eu bronnau â llaw</p>



## Clystyrau Sgiliau Hanfodol ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

### 5. Rheoli meddyginiaethau

Mae angen cynnal asesiadau rhifiadol cysylltiedig ag iechyd cyfunol er mwyn profi sgiliau a nodir ag (\*) o fewn y Clystyrau Sgiliau Hanfodol sy'n cwmpasu cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau. Mae angen marc pasio o 100 y cant ac mae'n rhaid cynnal yr asesiad yn y lleoliad ymarfer.

**Mae gweithgarwch rheoli meddyginiaethau yng nghyd-destun ymarfer bydwreigiaeth yn seiliedig ar ddull partneriaeth rhwng y ferch a'r fydwraig. Ei ddiben yw darparu ymyriadau therapiwtig pan fo'u hangen drwy gydol y broses eni er mwyn hwyluso canlyniad cadarnhaol.**

Rheoli cynhyrchion meddygol			
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr	Cynnwys dangosol
<p><b>1. O fewn paramedrau genedigaeth naturiol, sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol drwy wybodaeth gynhwysfawr o gynhyrchion meddyginiaethol, eu heffeithiau, eu risgiau a'u manteision gan gynnwys y gallu i adnabod adweithiau croes i gyffuriau a digwyddiadau croes sy'n ymwneud â chyffuriau.</b></p>		<p>Mae'n defnyddio dealltwriaeth o ffarmacoleg sylfaenol, sut mae cynhyrchion meddyginiaethol yn gweithio ac yn rhyngweithio yn systemau'r corff yn ogystal â'u heffeithiau therapiwtig ym mhob agwedd sy'n gysylltiedig ar ymarfer bydwreigiaeth</p> <p>Mae'n defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gynhyrchion meddyginiaethol a gyflenwir neu a roddir i'r ferch neu'r baban fel arfer er mwyn gweithredu'n ddi-oed mewn achosion lle y ceir sgil-ffeithiau ac adweithiau croes</p> <p>Mae'n rheoli'r broses o roi cyffuriau ac yn monitro eu heffeithiau yn ddiogel*</p>	<p>Anatomi a ffisioleg sy'n berthnasol i ymarfer bydwreigiaeth arferol</p> <p>Llwybrau cyffuriau – sut mae cynhyrchion meddyginiaethol yn gweithio</p> <p>Ffarmaco-therapiwtig – beth yw effeithiau therapiwtig cynhyrchion meddyginiaethol penodol. Risgiau meddyginiaeth o'u cymharu â'i manteision</p> <p>Ffarmaco-gineteg a sut y caiff dognau eu pennu gan ddynnameg/systemau yn y corff</p> <p>Rôl a swyddogaeth cyrff sy'n rheoleiddio ac yn sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd cynhyrchion meddyginiaethol</p>

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
		<p>Mae'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau croes ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd ac adweithiau croes i gyffuriau</p> <p>Mae'n rheoli anaffylacsis yn ddiogel</p>	<p>Effeithiau ar feichiogrwydd, y cyfnod esgor, yr enedigaeth, llaetha a babanod newydd-anedig</p> <p>Effeithiau gweddilliol cynhyrchion meddyginiaethol i'r fam ar y baban newydd-anedig</p>
<b>2. Gwneud cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion meddyginiaethol yn gywir ac yn ddiogel.</b>	Yn gymwys wrth gyfrifo dognau cyffredin o gynhyrchion meddyginiaethol a ddefnyddir mewn ymarfer bydwreigiaeth arferol*	Mae'n cyfrifo'r cynhyrchion meddyginiaethol y deuir ar eu traws yn aml ym maes ymarfer yn fanwl gywir*	Sgiliau rhifiadol, cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, sydd eu hangen er mwyn rhoi cynhyrchion meddyginiaethol i ferched yn ddiogel drwy lwybrau priodol gan gynnwys gofynion penodol ar gyfer babanod newydd-anedig

<p><b>3. Yn ystod eu hymarfer bydwreigiaeth proffesiynol, cyflenwi a rhoi cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel ac yn amserol, gan gynnwys cyffuriau a reolir</b></p>	<p>Mae'n rhoi meddyginiaeth i ferched drwy'r geg yn ddiogel o dan oruchwyliaeth uniongyrchol</p> <p>Mae'n defnyddio cyfarpar sydd ei angen i baratoi/rhoi meddyginiaeth (e.e. nodwyddau, chwistrellau, menig) yn ddiogel ac yn cael gwared arno</p>	<p>Mae'n dewis, yn cael ac yn rhoi cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel ac yn effeithlon drwy lwybrau a dulliau a ddefnyddir yn aml o fewn ymarfer bydwreigiaeth ac yn cadw cofnodion cywir</p> <p>Mae'n defnyddio siartiau presgripsiwn yn gywir ac yn cadw cofnodion cywir</p>	<p>Canolbwyntio ar ferched, rhannu gwybodaeth, lleddfu ofnau a gofid y ferch mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth, pwysigrwydd dulliau cyfathrebu geiriol a dieiriau</p> <p>Defnyddio siartiau presgripsiwn gan gynnwys sut i'w paratoi, eu darllen a'u dehongli a chofnodi achosion o roi a pheidio â rhoi meddyginiaeth Mae hyn yn cynnwys Gorchmynion Cyflenwi Bydwagedd</p>
--	---	--	--

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
		Mae'n defnyddio ac yn dehongli deddfwriaeth ynglŷn â meddyginiaeth sy'n ymwneud ag eithriadau ar gyfer bydwragedd yn gywir	<p>Paratoi a rhoi meddyginiaeth mewn amgylcheddau gwahanol, hylendid, rheoli haint</p> <p>Cludo cynhyrchion meddyginiaethol megis ocsid nitraidd ac ocsigen yn ddiogel</p> <p>Cael gwared ar gynhyrchion meddyginiaethol a chyfarpar gan gynnwys cyffuriau a reolir</p> <p>Diogelwch, cadarnhau pwy yw menywod/babanod newydd-anedig, y dogn diwethaf, yr amser, y dogn, y dull o'i roi, alergeddau, adweithiau croes blaenorol</p> <p>Anaffylacsis, polyfferylliaeth, monitro effeithiau meddyginiaethau, cadw cofnodion</p> <p>Ble a sut i roi gwybod am wrtharwyddion, sgil-effeithiau, adweithiau croes</p>

Rheoli cynhyrchion meddygol			
Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:	Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf	Er mwyn ymuno â'r gofrestr	Cynnwys dangosol
			<p>Sgiliau sydd eu hangen er mwyn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel gan ddefnyddio dulliau gwahanol, e.e. drwy'r geg, yn lleol, drwy drwythiad, drwy ei chwistrellu, gyrwyr chwistrell a phympiau</p> <p>Mae'n ymwybodol o'i chyfyngiadau ei hun a phryd i atgyfeirio merched at unigolion eraill</p>
<b>4. Cadw a chynnal cofnodion cywir, sy'n cynnwys adegau pan fydd yn gweithio o fewn fframwaith amlddisgyblaeth ac fel rhan o dîm.</b>	Mae'n dangos dealltwriaeth o gyfrifoldeb proffesiynol wrth gynnal cofnodion cywir gan gynnwys rheoleiddio, polisi a chanllawiau cenedlaethol a lleol	Mae'n dangos dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm amlddisgyblaeth ar gyfer rheoli cynhyrchion meddyginiaethol, gan gynnwys sut ac ym mha ffyrdd y caiff gwybodaeth ei rhannu	Dolenni i ddeddfwriaeth, defnyddio cyffuriau a reolir, <i>Y Cod: safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd</i> , mewn perthynas â chyfrinachedd, caniatâd a chadw cofnodion

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
	O dan oruchwyliaeth gall nodi hanes meddyginiaeth	<p>Mae'n cadw cofnodion effeithiol o brosesau rhannu gwybodaeth â merched am fanteision a risgiau meddyginiaeth berthnasol</p> <p>Mae'n cadw cofnodion effeithiol o feddyginiaeth a gyflenwyd a/neu a roddwyd ac nas rhoddwyd, gan gynnwys cyffuriau a reolir</p>	<p>Canllawiau cynhwysfawr yr NMC ar gyfrinachedd, caniatâd a chadw cofnodion</p> <p>Y defnydd o gofnodion electronig, tecstio, ffacsimiliau, cyfarwyddiadau llafar</p>

<p><b>5. Gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol a moesegol sy'n sail i waith rheoli cynhyrchion meddygol diogel ac effeithiol, yn ogystal ag ar y cyd â chanllawiau cenedlaethol a pholisïau lleol</b></p>	<p>Mae'n dangos dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a moesegol sy'n ymwneud â rhoi cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel mewn ymarfer</p>	<p>Mae'n gyfarwydd â deddfwriaeth sy'n ymwneud ag eithriadau ar gyfer bydwragedd, cynhyrchion meddyginiaethol ar gyfer Fferyllfeydd yn unig a Rhestrau Gwerthiannau Cyffredinol, Gorchmynion Cyflenwi Bydwragedd, dinistrio cyffuriau a reolir a Chyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau o Gleifion</p> <p>Mae'n ymwybodol o'i hatebolrwydd ei hun mewn perthynas â chyflenwi a rhoi cynhyrchion didrwydded</p> <p>Mae'n dangos y gallu i ddefnyddio deddfwriaeth berthnasol ynglŷn â meddyginiaeth i gefnogi ymarfer bydwreigiaeth o fewn</p>	<p>Y gyfraith, caniatâd, cyfrinachedd, moeseg, atebolrwydd</p> <p>Cyfrifoldebau o dan y gyfraith, cymhwyso deddfwriaeth ynglŷn â chynhyrchion meddyginiaethol at ymarfer gan gynnwys y defnydd o gyffuriau a reolir, gorchmynion eithrio bydwragedd, Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau o Gleifion (PDG) a Gorchmynion Cyflenwi Bydwragedd</p> <p>Gofynion rheoleiddiol: safonau'r NMC ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'r <i>Cod</i>: Safonau ymarfer proffesiynol ac</p>
--	--	---	---

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
		<p>y GIG yn y lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd, yn ogystal ag yn ystod ymarfer hunangyflogedig</p> <p>Mae'n cymhwyso deddfwriaeth mewn ymarfer at y gwaith o archebu, cael, storio, rhoi a gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol a chyffuriau yn ddiogel ac yn effeithiol, gan gynnwys cyffuriau a reolir mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd</p>	<p><i>ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwagedd</i> (NMC, 2015)</p> <p>.</p> <p>Rheolau a safonau'r NMC ar gyfer Bydwagedd</p> <p>Canllawiau gwlad-benodol</p>



<p><b>6. Gweithio mewn partneriaeth â merched er mwyn rhannu gwybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau diogel a hyddysg ynglŷn â chynhyrchion meddyginiaethol sy'n ymwneud â hwy eu hunain, eu plant yn y groth neu eu babanod.</b></p>	<p>Mae'n cymryd rhan yn y gwaith o gynnwys merched yn y broses o roi a/neu hunan-roi cynhyrchion meddyginiaethol.</p>	<p>Mae'n sicrhau bod prosesau rhannu gwybodaeth yn canolbwyntio ar ferched ac yn darparu gwybodaeth glir a chywir</p> <p>Mae'n helpu merched i wneud dewisiadau diogel a hyddysg ynglŷn â'u cynhyrchion meddyginiaethol</p> <p>Mae'n asesu gallu'r ferch i hunan-roi ei chynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel</p>	<p>Grwpiau diwylliannol, crefyddol, moesegol a hiliol a grwpiau sy'n agored i niwed a materion sensitif sy'n ymwneud â meddyginiaeth</p> <p>Esbonion a monitro prosesau hunan-roi ac asesiadau gan ferched</p> <p>Merch yn rhoi meddyginiaeth i'w baban</p>
---	---	---	---

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
		Mae'n rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir ac yn cadarnhau bod merched yn deall sut i ddefnyddio cynhyrchion meddyginiaethol ac opsiynau o ran triniaeth	Diwallu anghenion grwpiau penodol gan gynnwys hunan-roi, e.e. phobl â salwch meddwl, pobl ag anableddau dysgu, grwpiau sy'n agored i niwed  Y defnydd o daflenni
<b>7. Gweithio mewn partneriaeth â merched er mwyn rhannu gwybodaeth am ffyrdd amgen i ddefnyddio meddyginiaeth, lle y bo'n briodol.</b>	Mae'n dangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth o ddulliau cydnabyddedig o helpu merched yn ystod yr enedigaeth, e.e. ymlacio, tynnu sylw, cyngor ar ffordd o fyw	<p>Mae'n herio tystiolaeth, yn ei harfarnu'n feirniadol ac yn ei defnyddio i ategu dadl wrth benderfynu pryd y gall cynhyrchion meddyginiaethol fod yn ddewis priodol</p> <p>Mae'n atgyfeirio merched yn briodol at therapydd cyflenwol cofrestredig</p> <p>Mae'n ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â rhoi cyngor ar therapïau cyflenwol pan nad yw'n gymwys i wneud hynny, e.e. dail mafon, cynhyrchion llysieuol dros y cownter</p>	<p>Hybu iechyd, cyngor ar ffordd o fyw, cynhyrchion meddyginiaethol dros y cownter, hunan-roi cynhyrchion meddyginiaethol a therapïau eraill</p> <p>Arsylwi ac asesu. Effaith cynhyrchion meddyginiaethol ac opsiynau eraill, gan gynnwys deiet, tynnu sylw, ystum y corff, therapïau cyflenwol, ac ati.</p> <p>Asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso dewisiadau gan roi adborth</p>

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
<b>8. Archebu, cael, storio, cludo a gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, mewn unrhyw leoliad bydwreigiaeth (gan gynnwys cyffuriau a reolir).</b>	<p>Defnyddio gwybodaeth am bolisiau lleol i storio a chludo cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel</p> <p>Mae'n dangos y gallu i storio cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel</p>	Mae'n archebu, yn cael, yn storio ac yn gwaredu cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel, gan gynnwys cyffuriau a reolir	<p>Deddfwriaeth sy'n sail i ymarfer, sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o gynhyrchion meddyginiaethol gan gynnwys cyffuriau a reolir, trwythiadau, ocsigen, ocsid nitraidd ac ocsigen ac ati</p> <p>Amodau addas ar gyfer storio, rheoli stoc sydd wedi dyddio, trin meddyginiaethol yn ddiogel, rheoli anghysondebau o ran stoc, hepgoriadau</p> <p><a href="http://www.dh.gsi.gov.uk">www.dh.gsi.gov.uk</a> a chwiliwch am Safer management of controlled drugs (2007) Guidance on standard operating procedures</p>

<p><b>9. Defnyddio a gwerthuso gwybodaeth gyfredol am sut i reoli cynhyrchion meddyginiaethol a gweithio o fewn polisiau a chanllawiau cenedlaethol a lleol gan ddefnyddio cyfeiriadau priodol.</b></p>	<p>Mae'n gallu cael gafael ar ffynonellau o wybodaeth seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir yn aml ac sy'n ymwneud â rheoli cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel ac yn effeithiol</p>	<p>Mae'n hyderus wrth gael gafael ar ffynonellau o wybodaeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud â rheoli cynhyrchion meddyginiaethol yn ddiogel ac yn effeithiol</p>	<p>Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, nodi adnoddau, y ferch 'arbenigol', fferylliaeth, canolfan feddyginiaeth leol</p>
---	---	---	---

<b>Rheoli cynhyrchion meddygol</b>			
<b>Gall merched ddibynnu ar/disgwyl i fydwraig sydd newydd gofrestru:</b>	<b>Erbyn y pwynt cynnydd cyntaf</b>	<b>Er mwyn ymuno â'r gofrestr</b>	<b>Cynnwys dangosol</b>
		Mae'n gweithio yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol	Gan ddefnyddio ffynonellau o wybodaeth, polisïau cenedlaethol a lleol, llywodraethu clinigol, cyffurlyfrau, e.e. Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain
<b>10. Adnabod argyfyngau obsetrig ac ymateb iddynt yn briodol yng nghyd-destun rheoli meddyginiaethau</b>		Mae'n adnabod argyfyngau obsetrig ac yn gweithredu'n briodol pan fydd yn eu hwynebu, mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal eilaidd	Cynhyrchion meddyginiaethol sy'n ymwneud â rheoli argyfyngau obsetrig yn ddiogel ac yn effeithiol

# Atodiad: Darn o [Gyfarwyddeb 2005/36/EC](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ar gydnabod cymwysterau proffesiynol

## Erthygl 40

### Hyfforddi bydwragedd

Bydd yr hyfforddiant a ddarperir i fydwragedd yn cynnwys cyfanswm o'r canlynol o leiaf:

- (a) hyfforddiant llawn amser penodol fel bydwaig sy'n cynnwys o leiaf dair blynedd<sup>1</sup> o astudiaethau damcaniaethol ac ymarferol (llwybr I) sy'n cynnwys o leiaf y rhaglen a ddisgrifir yn Atodiad V, pwynt 5.5.1, o0072
- (b) hyfforddiant llawn amser penodol fel bydwaig sy'n para 18 mis (llwybr II), sy'n cynnwys o leiaf y rhaglen astudio a ddisgrifir yn Atodiad V, pwynt 5.5.1, nad oedd yn destun hyfforddiant cyfatebol i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol.

Bydd yr Aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant bydwragedd yn gyfrifol am gydgyssylltu theori ac ymarfer drwy gydol y rhaglen astudio. Er mwyn cael eich derbyn i hyfforddi fel bydwaig bydd yn rhaid bodloni un o'r amodau canlynol:

- (a) cwblhau o leiaf 12 mlynedd o addysg ysgol gyffredinol neu feddu ar dystysgrif sy'n brawf o lwyddiant mewn arholiad, ar lefel gyfatebol, er mwyn cael eich derbyn i ysgol fydwreigiaeth ar gyfer llwybr I;
- (b) meddu ar dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol y cyfeirir ati ym mhwynt 5.2.2 o Atodiad V ar gyfer llwybr II.

Bydd hyfforddiant i fod yn fydwaig yn rhoi sicrwydd bod gan y gweithiwr proffesiynol dan sylw y wybodaeth a'r sgiliau canlynol:

- (a) gwybodaeth fanwl am y gwyddorau y mae gweithgareddau bydwragedd yn seiliedig arnynt, yn enwedig fydwreigiaeth, obstetreg a gynaecoleg;
- (b) gwybodaeth ddigonol am foeseq y proffesiwn a'r ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn ag ymarfer y proffesiwn;
- (c) gwybodaeth ddigonol am wybodaeth feddygol gyffredinol (gweithrediadau biolegol, anatomi a ffisioleg) a ffarmacoleg ym maes obstetreg a'r baban newydd-anedig, a hefyd wybodaeth am y gydberthynas rhwng cyflwr iechyd ac amgylchedd ffisegol a chymdeithasol y bod dynol, a'i ymddygiad;
- (ch) profiad clinigol digonol a gafwyd mewn sefydliadau cymeradwy sy'n golygu y gall y fydwaig, yn annibynnol ac o dan ei chyfrifoldeb ei hun, i'r graddau sy'n angenrheidiol a heb gynnwys sefyllfaoedd patholegol, helpu'r fam i roi genedigaeth i'r baban ac ymdrin â'i chanlyniadau mewn sefydliadau cymeradwy, a goruchwyllo'r cyfnod esgor a'r enedigaeth, gofal ôl-enedigol a dadebru babanod newydd-anedig tra'n aros am ymarferwr meddygol;

<sup>1</sup> Ar gyfer gofynion yr UE o ran oriau gofynnol gweler Safon 10 ar dudalen 17

(d) dealltwriaeth ddigonol o'r broses o hyfforddi personél iechyd a phrofiad o weithio gyda phersonél o'r fath.

## Erthygl 42

### Cyflawni gweithgareddau proffesiynol bydwraig

Bydd darpariaethau'r adran hon yn gymwys i weithgareddau bydwragedd fel y'u diffinnir gan bob Aelod-wladwriaeth, heb effeithio ar baragraff 2, ac fe'u cyflawnir o dan y teitlau proffesiynol a nodir yn Atodiad V, pwynt 5.5.2.

Bydd yr Aelod-wladwriaethau yn sicrhau y gall bydwragedd gael mynediad at y gweithgareddau canlynol, o leiaf, a'u cyflawni:

- (a) darparu gwybodaeth a chynghor cadarn am gynllunio teulu;
- (b) canfod beichiogrwydd a monitro beichiogrwydd naturiol; cynnal yr archwiliadau sydd eu hangen er mwyn monitro datblygiad beichiogrwydd naturiol;
- (c) rhagnodi'r archwiliadau sydd eu hangen er mwyn canfod beichiogrwydd sydd mewn perygl cyn gynted â phosibl neu roi cynghor ar archwiliadau o'r fath;
- (ch) darparu rhaglenni ar gyfer paratoi i fod yn rhiant a chwblhau'r paratodau ar gyfer rhoi genedigaeth gan gynnwys cynghor ar hylendid a maeth;
- (d) gofalu am y fam yn ystod y cyfnod esgor a'i chynorthwyo a monitro cyflwr y ffetws yn y groth gan ddefnyddio'r dulliau clinigol a thechnegol priodol;
- (dd) helpu merched i roi genedigaeth yn naturiol gan gynnwys, lle y bo angen, episiotomiau ac mewn achosion brys esgoriadau o chwith;
- (e) adnabod arwyddion rhybudd o annormaledd yn y fam neu'r baban sy'n golygu bod angen ei hatgyfeirio at feddyg neu gynorthwyo'r olaf lle y bo'n briodol; cymryd y camau brys angenrheidiol yn absenoldeb y meddyg, yn enwedig tynnu'r brych â llaw, ac wedyn, o bosibl, archwilio'r wterws â llaw;
- (f) archwilio'r baban newydd-anedig a gofalu amdano; cymryd pob cam angenrheidiol rhag ofn y bydd angen a dadebru babanod ar unwaith lle y bo angen;
- (ff) gofalu am y fam a monitro ei chyflwr yn y cyfnod ôl-enedigol a rhoi'r holl gyngor angenrheidiol i'r fam am ofalu am y baban er mwyn ei galluogi i sicrhau bod y baban newydd-anedig yn gwneud y cynnydd gorau posibl;
- (g) rhoi triniaeth a ragnodir gan feddygon;
- (ng) llunio'r adroddiadau ysgrifenedig angenrheidiol.

## **Cysylltu â ni**

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth  
23 Portland Place  
London W1B 1PZ  
020 7333 9333  
[www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)

Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn o Safonau ar gyfer addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru yn 2009. Mae'n disodli Standards of proficiency for pre-registration midwifery education (2004).